



Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# ARCHWILIAD ARIANNOL O GYFRIFON 1998-99 ADRODDIAD CYFFREDINOL

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru



# ARCHWILIAD ARIANNOL O GYFRIFON 1998-99 ADRODDIAD CYFFREDINOL

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar

17 Mawrth 2000

**Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan o Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.**

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**17 Mawrth 2000**

**Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio ei adnoddau i gyflawni ei weithrediadau.**

**Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.**

**Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:**


**Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru**
**23-24 Plas-y-Parc**
**Caerdydd**
**CF10 3BA**

**Tel: 02920 378661**

**e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk**
**Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.open.gov.uk/nao/home.htm**

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | **1** |
| Rheolaeth Ariannol | 1 |
| Gweithio gyda'r Archwiliad Mewnol | 2 |
| Rheoli Corfforaethol | 2 |
| Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau | 3 |
| Bygythiad y Mileniwm | 4 |
| Ychwanegu Gwerth | 4 |
| Bwriad yn y Dyfodol | 4 |
| **Rhan 1: Cyflwyniad** | **5** |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 5 |
| Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol | 5 |
| **Rhan 2: Rheolaeth Ariannol** | **8** |
| Cyflwyniad | 8 |
| Rôl y Swyddog Cyfrifo | 8 |
| Fy Rôl fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol | 8 |
| Canlyniadau'r Gwiriadau Archwilio | 9 |
| Ychwanegu Gwerth - Gwasanaethau i Gleientiaid | 13 |
| **Rhan 3: Gweithio gyda'r Archwiliad Mewnol** | **19** |
| Cyflwyniad | 19 |
| Rôl yr Archwiliad Mewnol | 19 |
| Darparwyr Gwasanaethau Archwilio Mewnol yng Nghymru | 19 |
| Dibynnu ar yr Archwiliad Mewnol | 21 |
| Edrych ymlaen | 22 |
| **Rhan 4: Rheoli Corfforaethol** | **23** |
| Cyflwyniad | 23 |
| Datblygu Rheoli Corfforaethol | 23 |
| Cymhwyso Rheoli Corfforaethol | 23 |
| Datblygiadau yn y Dyfodol | 26 |
| **Rhan 5: Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau** | **27** |
| Cyflwyniad | 27 |
| Paratoadau ar gyfer Gweithredu Cyfrifo Adnoddau | 27 |
| Datblygiadau yn y Dyfodol | 28 |

| | |
|---|---|
| Rhan 6: Bwriad yn y Dyfodol | 30 |
| Cyflwyniad | 30 |
| Oes Newydd | 30 |
| Ymdrin â Blaenoriaethau'r Cynulliad | 30 |
| Bygythiad y Mileniwm | 30 |
| Ychwanegu Gwerth | 31 |
| Atodiad | 32 |

## RHESTR O'R FFIGURAU A DDEFNYDDIR YN YR ADRODDIAD

| | Tudalen |
|---|---|
| Ffigwr 1: Canfyddiadau Allweddol o'r Dadansoddiad o Gamau Gweithredu yng Nghymru i Ymdrin â Byg y Mileniwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru | 3 |
| Ffigwr 2: Cyfrifon y Swyddfa Gymreig gynt a'r sefydliadau cysylltiedig a archwiliwyd gan Reolydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru | 6 |
| Ffigwr 3: Siart yn Nodi Cyfnodau Cyfrifo ar gyfer y Swyddfa Gymreig gynt a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | 7 |
| Ffigwr 4: Cyfrifon Cryno yr NHS (Cymru) 1997-98 | 11 |
| Ffigwr 5: Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn yr Awdurdodau Iechyd ar 31 Mawrth 1998 | 11 |
| Ffigwr 6: Amcanion Ariannol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru | 12 |
| Ffigwr 7: Perfformiad Ariannol Ymddiriedolaethau'r NHS 1995-96 i 1998-99 (rhagolwg) | |
| Ffigwr 8: Tabl sy'n dangos nifer y pwyntiau mewn llythyrau rheoli a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, wedi'u categoreiddio fesul math | 14 |
| Ffigwr 9: Canfyddiadau cyffredin yn sgîl dadansoddi monitro ar ôl Cwblhau | 17 |
| Ffigwr 10: Materion yr Ymdrinnir â Hwy mewn Arolwg Sicrwydd Ychwanegol | 18 |
| Ffigwr 11: Rôl yr Archwilydd Mewnol | 19 |
| Ffigwr 12: Darparwyr Gwasanaethau Archwilio Mewnol yng Nghymru | 20 |
| Ffigwr 13: Enghreifftiau o feysydd lle roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu rhoi mesur o ddibyniaeth ar waith yr Archwiliad Mewnol, mewn perthynas â rhai o'r cyrff a archwiliwyd | 22 |
| Ffigwr 14: Materion allweddol i'w datgelu yn y Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol | 25 |
| Ffigwr 15: Gweithdrefnau Allweddol sy'n Rhan o'r System Reoli | 25 |
| Ffigwr 16: Canfyddiadau Allweddol o'r Dadansoddiad o Gamau Gweithredu yng Nghymru i Ymdrin â Byg y Mileniwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru | 31 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

**1.** Mae'r adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), yn crynhoi canlyniadau'r archwiliadau ariannol ac ymchwiliadau cysylltiedig y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru yr ymgymerwyd â hwy mewn perthynas â blwyddyn ariannol 1998-99 - y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf cyn i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Felly mae'r adroddiad hwn yn amlygu prif nodweddion yr amgylchedd rheoli ariannol y mae'r Cynulliad bellach yn gyfrifol amdano. Mae'n amlinellu'r hyn a etifeddwyd gan y Cynulliad yn nhermau'r trefniadau cyfrifo sydd yn y cyrff y mae bellach yn gyfrifol amdanynt, ac yn nodi heriau ar gyfer y dyfodol.

**2.** Fe'm penodwyd yn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 1 Mehefin 1999, ac mae'n ofynnol i mi ardystio cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru o flwyddyn ariannol 1999-2000, gan gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i'r Cynulliad.

## Rheolaeth Ariannol

**3.** Y canlyniadau allweddol o'm harchwiliadau ar gyfer cyfrifon 1998-99 yw:

Fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, rhoddais **farn ddiamod** ar bob un o'r 36 o gyfrifon a archwiliwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 1998-99 [paragraff 2.7];

Ysgrifennais **adroddiadau sylweddol** ar dri o'r cyfrifon hynny:

- **Amgueddfa Genedlaethol Cymru**: tynnodd fy adroddiad sylw'r Senedd at daliad afreolaidd a wnaed i uwch gyflogai a oedd yn gadael. Methodd yr Amgueddfa â chael cymeradwyaeth y Swyddfa Gymreig gynt ymlaen llaw cyn gwneud y taliad hwn. Gwrthododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyaeth ôl-weithredol pan gysylltodd yr Amgueddfa ag ef ar ôl i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddatgelu'r mater [paragraff 2.9];
- **Awdurdod Datblygu** Cymru: Diddymwyd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru ar 1 Hydref 1998. Trosglwyddwyd eu heiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau i Awdurdod Datblygu Cymru. Cyflwynais adroddiad i'r Senedd yn dweud fy mod yn fodlon ar y driniaeth gyfrifo a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer y trafodion hyn, a soniais hefyd am y camau a gymerwyd i gysoni polisïau cyfrifo'r corff a gyfunwyd [paragraff 2.12];
- **Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)**: Cyflwynais adroddiad i'r Senedd ar ganlyniadau fy archwiliad o gyfrifon cryno'r NHS ar gyfer y flwyddyn ariannol 1997-98. Soniais am berfformiad ariannol yr awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru a oedd yn gwaethygu, ac amlygais gostau cynyddol ceisiadau am esgeulustod clinigol [paragraff 2.14];

**4.** Yn ystod eu harchwiliadau o'r datganiadau ariannol blynyddol, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu rhoi cyngor i reolwyr pob corff archwiliedig, gan argymell gwelliannau i reolaethau a systemau ariannol. Codir y materion mwyaf arwyddocaol mewn adroddiadau ffurfiol i reolwyr. Y themâu allweddol a ddeilliodd o archwiliadau 1998-99 oedd:

- **Perchnogaeth Data**: cyfrifoldeb personol pob Swyddog Cyfrifo yw'r datganiadau ariannol. Mae angen i reolwyr arolygu dilysrwydd yr holl ddata a gofnodir yn y datganiadau hynny, gan sicrhau bod y cyfrifon yn gyson yn fewnol. Yn arbennig, mae angen i'r rheolwyr arolygu balansau a datgeliadau yng nghyd-destun gweithgareddau pob sefydliad, gan ystyried a ydynt yn adlewyrchu eu trafodion ariannol yn gywir. Dylid ymgymryd â'r broses hon cyn i'r cyfrifon gael eu cyflwyno i'w harchwilio [paragraffau 2.30 i 2.34];

- **Monitro Cynlluniau Grant**: nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol rai anghysondebau rhwng sefydliadau yn eu hymagweddau tuag at fonitro cydymffurfiad gan dderbynwyr grantiau â'r amodau a bennir mewn llythyrau cynnig.

  Er enghraifft, efallai y bydd gwahaniaethau o ran swm y monitro sy'n digwydd ac o ran y graddfeydd amser ar gyfer cydymffurfiad ar ôl cwblhau [paragraffau 2.42 i 2.45].

**5.** Ymgymerodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol â chyfres o arolygon "sicrwydd ychwanegol" i ymchwilio i agweddau penodol ar weithrediadau o fewn Cyrff Cyhoeddus Anadrannol (Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad bellach) a allai effeithio ar weinyddiaeth ariannol y sefydliadau hynny. Roedd y canlyniadau yn galonogol ar y cyfan a nodwyd gwelliannau pendant ers i'r ymarferion hyn gael eu cynnal gyntaf ym 1995-96. Fodd bynnag, roedd sawl enghraifft lle y methodd y cyrff â cheisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddfa Gymreig gynt cyn gwario arian newydd, anarferol neu ddadleuol, fel y nodir o fewn eu memorandwm ariannol [paragraff 2.48].

## Gweithio gyda'r Archwiliad Mewnol

**6.** Wrth i reoli corfforaethol ddod yn fater cynyddol bwysig o fewn y sector cyhoeddus, mae arwyddocâd o'r newydd yn dod i ran rôl yr archwiliad mewnol.

**7.** Roedd pennaeth pob Archwiliad Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i'w Swyddog Cyfrifo ef neu hi ynglŷn â gweithredu systemau rheolaeth ariannol fewnol eu sefydliad yn effeithiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 1998-99. Serch hynny, cododd pob tîm archwilio mewnol faterion ynglŷn â'r systemau a archwiliwyd. Y themâu allweddol, fel y nodwyd ym mharagraff 3.5 yn yr Adroddiad hwn, oedd:

- Gallai'r gweithdrefnau i gloriannu ceisiadau am gymorth grant ar y cychwyn, monitro'r cynlluniau grant ar ôl dyfarnu gael eu tynhau;

- Bu rhai ymchwiliadau i honiadau o weithgaredd twyllodrus, o fewn y sefydliadau a chan dderbynwyr grantiau. Lle bo hynny'n briodol, trosglwyddwyd achosion i'r heddlu, er nad arweiniodd un o'r achosion hyn at erlyniad. Dilynwyd rhai gweithdrefnau disgyblu mewnol wedi ymchwiliadau mewnol;

- Bu rhai achosion o dor-cymhwyso trefniadau tendro penodedig;

- Gwnaed nifer o argymhellion i wella rheolaethau dros gyflawnder incwm.

**8.** Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi'i chalonogi i raddau helaeth yn sgîl gwaith archwiliad mewnol yn ystod y flwyddyn ariannol 1998-99. Mae cydweithredu o'r math hwn wedi helpu i leihau'r baich archwilio ac osgoi dyblygu ymdrech [paragraff 3.8].

## Rheoli Corfforaethol

**9.** Bellach, mae gan yr holl gyrff a gwmpesir gan yr adroddiad hwn **Bwyllgor Archwilio**, ac eithrio Estyn. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi argymell bod Estyn yn sefydlu Pwyllgor Archwilio, ac mae rheolwyr Estyn yn ystyried hyn ar hyn o bryd [paragraff 4.7].

**10.** Fe'i gwnaed yn ofynnol gan y Trysorlys i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus gynnwys **datganiad o reolaeth ariannol fewnol** ar y cyd â'u datganiadau ariannol am y tro cyntaf ym 1998-99. Roedd pob corff yn gallu darparu manylion am eu systemau rheolaeth ariannol fewnol yn unol ag arweiniad y Trysorlys. Nodais fod pob Swyddog Cyfrifo yn gallu bodloni ei hun o ran effeithiolrwydd y systemau rheolaeth ariannol fewnol a oedd yn gweithredu yn ystod blwyddyn ariannol 1998-99. Ni fu unrhyw adegau pan nodais unrhyw fethiant i gydymffurfio ag arweiniad y Trysorlys, ac nid oedd unrhyw anghysondebau na chamgynrychioliadau yn amlwg o'm gwaith archwilio [paragraff 4.11].

**11.** Mae Pwyllgor Turnbull wedi cynnig y dylid ehangu'r datganiad hwn i ymgorffori pob system rheolaeth fewnol. Er bod yn rhaid i'r Trysorlys benderfynu o hyd sut y bydd hyn yn effeithio ar y sector cyheoddus, mae angen i aelodau Pwyllgor Archwilio pob corff ddechrau ystyried goblygiadau cynnig Turnbull cyn gynted ag y bo modd. Yn benodol, dylid ystyried y gweithdrefnau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn i'r Swyddog Cyfrifo gael digon o sicrwydd ynglŷn â sut mae'r systemau hyn yn gweithredu [paragraffau 4.18].

## Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau

**12.** Paratôdd y Swyddfa Gymreig gynt Gyfrif Adnoddau "ymarfer" ar gyfer blwyddyn ariannol 1998-99, a oedd yn cyflwyno gweithgareddau'r Adran ar sail croniadau. Ni fuaswn wedi gallu rhoi barn ddiamod ar y cyfrifon hyn gan nad oeddynt yn cynnwys 'Datganiad o Adnoddau fesul Nodau ac Amcanion Adrannol', a ddylai ddarparu dadansoddiad o'r gwariant fesul swyddogaeth [paragraff 5.5].

**13.** Deilliodd nifer o faterion allweddol eraill o'm harchwiliad o'r cyfrif ymarfer hwn [paragraff 5.7]:

- Nid oedd swyddogion y Cynulliad yn gallu bodloni'r amserlen paratoi cyfrifon cytûn ar gyfer y cyfrif ymarfer. Bydd angen paratoi cyfrifon 1999-2000 er mwyn cyrraedd y dyddiad cau statudol cynharach o 31 Awst pan fydd y Swyddog Cyfrifo yn eu llofnodi. Felly mae'n rhaid i Grŵp Cyllid y Cynulliad sicrhau y neilltuir digon o staff wedi'u hyfforddi i'r project hwn;

- Bydd yn rhaid i swyddogion y Cynulliad sicrhau bod system gyfrifo newydd y Cynulliad yn mynd i'r afael â gofynion cyfrifo a chofnodi'r Cynulliad yn llawn pan gaiff ei chyflwyno ym 2001;

- Mae angen cryfhau gweithdrefnau arolygu rheolwyr er mwyn asesu cywirdeb, cyflawnder a rhesymoldeb yr wybodaeth gyfrifo cyn eu cynnwys o fewn y cyfrif a gyflwynir i'w archwilio.

## Bygythiad y Mileniwm

**14.** Cyflwynais adroddiad i'r Cynulliad ym mis Rhagfyr 1999 ar barodrwydd Cymru i wrthsefyll y bygythiad yr oedd systemau technoleg gwybodaeth yn ei wynebu yn sgîl y mileniwm newydd[paragraff 6.6]. Mae crynodeb o’r dadansoddiad yn ffigwr 1 drosodd.

**Ffigwr 1: Canfyddiadau Allweddol o'r Dadansoddiad o Gamau Gweithredu yng Nghymru i Ymdrin â Byg y Mileniwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Casgliad Cyffredinol**

- Dim ond risg isel o amhariad perthnasol oedd oherwydd Byg y Mileniwm dros gyfnod y Flwyddyn Newydd.

**Y Seilwaith Cenedlaethol yng Nghymru**

- Ystyriwyd nad oedd gan yr un sector yng Nghymru risgiau adnabyddadwy o amhariad perthnasol (côd glas), yn rownd derfynol asesiadau annibynnol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

- Bu cynnydd da o fewn y sefydliadau hyn i gydymffurfio â'r mileniwm;
- Amcangyfrifwyd mai £1.3 miliwn oedd cost y gwaith hwn.

## Ychwanegu Gwerth

**15.** Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn rhoi cyngor i sefydliadau sy'n gleientiaid, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, ar faterion cyfrifo a systemau rheoli cyffredinol. Mae'r adroddiadau i reolwyr yn rhoi sicrwydd i Swyddogion Cyfrifo, ac yn gwneud argymhellion i wella eu systemau o reolaeth ariannol fewnol. Mae rheoleidd-dra a phriodoldeb yn faterion allweddol o fewn y sector cyhoeddus, ac mae gwaith archwilio ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus noddedig mewn perthynas â'r agweddau pwysig hyn [paragraff 6.9].

## Bwriad yn y Dyfodol

**16.** Mae'r trefniadau wedi datganoli ar gyfer gwariant llywodraeth ganolog yng Nghymru yn rhoi cyfle i mi lunio fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chefnogaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, bartneriaeth effeithiol â'r Cynulliad Cenedlaethol - ac yn arbennig â'r Pwyllgor Archwilio - wrth oruchwylio cyfrifo ariannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a hefyd bod sylw yn cael ei roi i gynnal busnes, priodoldeb a rheoleidd-dra busnes yn gywir [Rhan 6].

**17.** Rwyf wedi ystyried pryderon y Pwyllgor Archwilio wrth baratoi atodlen o astudiaethau Gwerth am Arian ar gyfer 1999-2000 a 2000-2001. Er mai myfi fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y rhaglen waith, rwyf wedi gwneud newidiadau i gwmpas ac amseriad y gwaith hwn er mwyn caniatáu i astudiaethau penodol gael eu hymgorffori yn gyson â cheisiadau'r Pwyllgor [paragraff 6.4].

**18.** Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf yn bwriadu parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a darbodus i'r Cynulliad a chyrff cysylltiedig ar archwiliadau ariannol a gwerth am arian, gyda'r nod o helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wario arian yn ddoeth.

# RHAN 1: CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), yn crynhoi canlyniadau'r archwiliadau ariannol a'r ymchwiliadau perthnasol yng Nghymru yr ymgymerodd y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol â hwy mewn perthynas â blwyddyn ariannol 1998-99 - y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf cyn i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Mae'r adroddiad hwn felly yn amlygu prif nodweddion yr amgylchedd rheoli ariannol y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano bellach. Mae'n disgrifio etifeddiaeth y Cynulliad yn nhermau'r trefniadau cyfrifo yn y cyrff y mae bellach yn gyfrifol amdanynt, ac yn nodi heriau at y dyfodol.

**1.2** Nodir priod rolau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol isod. Darperir dadansoddiad o'r cyfrifon a archwiliwyd yn ystod 1998-99 yn Ffigwr 2.

## Archwilydd Cyffrediniol Cymru

**1.3** Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn sicrhau mai Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cyhoeddus noddedig. Fe'm penodwyd gan y Frenhines fel Archwilydd Cyffredinol cyntaf Cymru ar 1 Mehefin 1999 am gyfnod o ddwy flynedd.

**1.4** Yn effeithiol o flwyddyn gyfrifo 1999-00, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru mae'n ofynnol i mi ardystio cyfrifon y Cynulliad Cenedlaethol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i'r Cynulliad. Mae'n ofynnol i mi sicrhau mai dim ond at ddibenion y bwriad y defnyddiwyd yr arian a gafodd ei roi i'r Cynulliad a'i roi ganddo. Wrth gyflawni'r gwaith hwn byddaf hefyd yn ystyried priodoldeb y ffordd yr ymdriniwyd ag arian y cyhoedd a'r ffordd y cynhaliwyd busnes cyhoeddus ar draws y sector.

## Y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol

**1.5** Rwyf hefyd yn dal swydd y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n golygu fy mod yn gyfrifol am archwilio pob sefydliad llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Gyfunol yn allanol, gan gyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau fy ngwaith a'm casgliadau i'r Senedd. Ar gyfer blwyddyn gyfrifo 1998-99, roedd hyn yn cynnwys y Swyddfa Gymreig gynt, ei Hasiantaeth Weithredol, a'i chyrff cyhoeddus anadrannol noddedig lle mae'r cyfrifoldeb bellach wedi'i drosglwyddo i'r Cynulliad.

**1.6** Ymgymerodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru â'r gwaith a oedd yn angenrheidiol i gefnogi fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'm swyddogaethau statudol yng Nghymru a bydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar gyfer blwyddyn gyfrifo 1998-99, archwiliwyd 36 o gyfrifon gan gwmpasu'r rhaglenni gwario a ariannwyd gan gyllideb bloc Cymru. Paratowyd y cyfrifon hyn naill ai ar sail arian parod neu groniadau, yn ôl cyfarwyddiadau'r Trysorlys, gan gyrff a oedd yn amrywio o ran maint a chymhlethdod ac sy'n gweithredu amrywiaeth o systemau cyfrifo â llaw a rhai cyfrifiadurol. Ceir dadansoddiad o'r cyfrifon hyn fesul math yn Ffigwr 2 drosodd. Rhestrir y cyfrifon hefyd yn yr Atodiad i'r Adroddiad, wedi'u grwpio yn ôl Pwyllgor Pwnc mwyaf perthnasol y Cynulliad.

**1.7** Y cyfrifon neilltuo yw pum cyfrif gwariant a derbynebion y Swyddfa Gymreig gynt, a chyfrifon Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion EM yng Nghymru (a ailenwyd yn Estyn o 1 Gorffennaf 1999) hefyd, ac fe'u cynhyrchir ar sail derbynebion a thaliadau. O dan Adran 22 o Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1866, fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiadau ar yr holl Gyfrifon Neilltuo. Fodd bynnag, nid wyf wedi codi unrhyw faterion o bryder sy'n ymwneud â chyfrifon 1998-99.

**Ffigwr 2: Cyfrifon y Swyddfa Gymreig gynt a'r sefydliadau cysylltiedig a archwiliwyd gan Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.**


| **Math o Gyfrif archwiliwyd** | **Nifer a archwiliwyd 1998-99** | **Nifer a archwiliwyd 1997-98** |
|---|---|---|
| **Swyddfa Gymreig** | | |
| Cyfrifon neilltuo | 6 | 6 |
| Cyfrifon Cronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 1 | 4 |
| Cyfrifon NHS Cymru | 5 | 5 |
| Asiantaeth Weithredol (Cadw) | 1 | 1 |
| Cyfrifon eraill y Swyddfa Gymreig | 2 | 2 |
| **Cyrff Cyhoeddus Anadrannol** | | |
| Elusennau | **4** | 4 |
| Cyfrifon cronfa bensiwn | **1** | 1 |
| Cyfrifon Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Eraill | **12** | 12 |
| *Cyfrifon Cymreig eraill, nas trosglwyddwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru* | **4** | 4 |
| **Cyfanswm** | **36** | **39** |

**1.8** Ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000, bydd yna un cyfrif neilltuo a baratowyd gan Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cwmpasu tri mis diwethaf y Swyddfa Gymreig a'r cronfeydd a ddyrannwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau ar 1 Gorffennaf 1999. Bydd y Cynulliad, Estyn a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd yn paratoi cyfrifon adnoddau ar sail croniadau ym 1999-2000 am y tro cyntaf. Yn ogystal, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo y dylai'r Swyddfa Gymreig gynt gael cyfrif adnoddau tri mis gan gwmpasu'r cyfnod sy'n arwain at drosglwyddo swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 1999. Mae'r siart yn ffigwr 3 yn dangos y cyfrifon a gaiff eu paratoi ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-00 a'r cyfnodau y byddant yn eu cwmpasu. Eglurir cyfrifo adnoddau yn fanylach yn Rhan 5 o'r adroddiad hwn, sydd hefyd yn nodi'r cynnydd a gafwyd mewn ymateb i fenter Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau'r Trysorlys.

**1.9** Daeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fod ar y diwrnod yn dilyn yr etholiad cyntaf (7 Mai 1999), er na throsglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau'r Swyddfa Gymreig gynt nes i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo ar 1 Gorffennaf. Gan fod y Cynulliad wedi gwario rhywfaint ar y cychwyn yn y cyfnod hyd at y trosglwyddo, bydd ei ddatganiadau ariannol cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod o 7 Mai 1999 i 31 Mawrth 2000.

**1.10** Sefydlwyd yr Asiantaeth weithredol (Cadw) a'r Cyrff Cyhoeddus Anadrannol i ymgymryd â swyddogaethau gweithredol penodol yr oedd eu hangen yn ôl y llywodraeth. Cedwir y swyddogaethau hyn yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998,

**Ffigwr 3: Siart yn Nodi Cyfnodau Cyfrifo ar gyfer y Swyddfa Gymreig gynt a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.**




sydd hefyd yn nodi pwerau'r Cynulliad i ddiwygio cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r sefydliadau hyn gynhyrchu cyfrifon ar ffurf a gyfarwyddir gan y Trysorlys ar sail croniadau, ac yn unol â gofynion y Deddf Cwmnïau a'r safonau cofnodi a chyfrifo ariannol, i'r graddau y maent yn briodol i bob corff.

**1.11** Daeth y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol yn Gyrff Cyhoeddus Noddedig y Cynulliad ar 1 Gorffennaf, heblaw am Awdurdod Tir Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, a gynhwyswyd o fewn Awdurdod Datblygu Cymru ar 1 Hydref 1998. Fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol archwiliais y cyfrifon cau ar gyfer y ddau sefydliad hwn, ac fe'u cyhoeddwyd ar y cyd â chyfrifon 1998-99 Awdurdod Datblygu Cymru (HC 758 o 1998-99).

**1.12** Mae hefyd yn ofynnol i'r Cynulliad (y Swyddfa Gymreig gynt) gynhyrchu cyfrifon cryno o'r NHS yng Nghymru. Ar gyfer 1998-99, roedd pum cyfrif o'r fath yn cwmpasu awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau'r NHS, cronfeydd a ddelir ar ymddiriedoaleth, Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru ac Awdurdod Hybu Iechyd Cymru. Mae'r ddau gorff olaf bellach wedi'u diddymu a dim ond tri chyfrif cryno fydd felly ar gyfer 1999-00.

**1.13** Ymhlith cyfrifon eraill a baratowyd ar gyfer 1998-99 roedd CHMau Cymru a threthu annomestig.

# RHAN 2: RHEOLAETH ARIANNOL

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canlyniadau a'r casgliadau o'm harchwiliadau yng Nghymru fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 1998-99. Yn benodol:

- Mae'n nodi rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â'r cronfeydd y mae ef neu hi'n eu rheoli (paragraff 2.3);
- Mae'n egluro fy rôl a'm cyfrifoldebau statudol fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol wrth archwilio'r datganiadau ariannol blynyddol a baratoir gan y Swyddog Cyfrifo (paragraff 2.4);
- Mae'n nodi i mi gyhoeddi fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol barn archwilio ddiamod ar bob un o'r cyfrifon a archwiliais ym 1998-99 (paragraff 2.7);
- Mae'n darparu manylion am yr adroddiadau a gyhoeddais ar gyfrifon Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyfrifon Cryno'r NHS (Cymru) (paragraff 2.8);
- Mae'n disgrifio'r gwasanaethau archwilio eraill a ddarperir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gleientiaid sy'n codi o'i gwaith statudol. Dadansoddir yr adroddiadau a wnaed i reolwyr gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar faterion rheolaeth ariannol a nodwyd yn ystod gwaith archwilio 1998-99 (paragraff 2.24).

2.2 Yn gyffredinol, roedd safonau rheolaeth ariannol mewn cyrff cleientiaid ledled Cymru yn dda. Ni dderbyniodd yr un o'r cyfrifon Cymreig farn archwilio amodol a dim ond tri adroddiad sylweddol a wnaed ar gyfrifon. Serch hynny, yn ystod ei gwaith roedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu gwneud ystod eang o argymhellion i reolwyr cleientiaid ynghylch gwelliannau i systemau rheoli a phrosesau cyfrifo.

## Rôl y Swyddog Cyfrifo

2.3 Mae gan y Swyddog Cyfrifo a benodwyd ar gyfer pob corff a archwilir gan Swyddfa Archwilio Genedlaehtol Cymru nifer o gyfrifoldebau allweddol o ran rheolaeth arianol. Nodir y cyfrifoldebau hyn mewn datganiad a geir ar y cyd â phob cyfrif, ac maent yn cynnwys:

- Cadw cofnodion cywir a pharatoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio â gofynion statudol a datgelu eraill;
- Priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae ef neu hi yn gyfrifol amdanynt;
- Cynllunio, gweithredu ac arolygu effeithiolrwydd systemau a rheolaethau ariannol. Tîm rheoli'r corff sy'n goruchwylio'r cyfrifoldeb hwn ac fe'i ategir, wrth gwrs, gan gyngor nifer o ffynonellau gan gynnwys yr archwilwyr mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## Fy Rôl fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol

2.4 Fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol gwiriais gyfrifon 1998-99, yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Yn gyson ag arfer y sector preifat, yr wyf yn:

- Cyflawni gweithdrefnau a gynlluniwyd i gael tystiolaeth archwilio ddigonol, a phriodol i bennu, â hyder rhesymol, a yw'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamgymeriad perthnasol;
- Gwerthuso'r modd y caiff y datganiadau ariannol eu cyflwyno'n gyffredinol er mwyn canfod a gawsant eu paratoi yn unol â'r Gyfarwyddeb Cyfrifon berthnasol.

Un mater archwilio ychwanegol, sy'n unigryw i'r sector cyhoeddus, yw rheoleidd-dra. Fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, mae'n ofynnol i mi hefyd asesu

a yw pob corff a archwilir wedi cymhwyso'r incwm a'r gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac a ydynt yn cydymffurfio -â'r awdurdodau rheoli priodol.

**2.5** Fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, rwyf yn cyflwyno canlyniadau fy ngwaith ar yr archwiliad ariannol fel a ganlyn:

- **Tystysgrif i'r datganiadau ariannol** sy'n mynegi'n glir fy marn ar y datganiadau ariannol. Mae rhywfaint o anfanylder wrth baratoi'r holl ddatganiadau ariannol, ynghyd â'r angen am ddoethineb wrth bennu amcangyfrifon a pholisïau cyfrifo, a'r ansicrwydd sy'n gynhenid mewn amcangyfrifon ariannol. Er enghraifft, mae'r cyfnod pan fydd ased sefydlog yn cael ei ddibrisio yn fater o farn yn hytrach na gwyddor fanwl. Felly mae'r archwilydd yn ystyried gofynion gwybodaeth darllenwyr y cyfrifon, ac yn barnu a yw'r datganiadau ariannol yn diwallu'r anghenion hynny. Wrth ddod i'r farn hon, mae'r archwilydd yn ystyried pwysigrwydd perthnasol pob mater sy'n deillio o'r archwiliad yng nghyd-destun y cyfrif cyfan. Ystyrir mater yn un perthnasol ope bai ei gamddatgan neu ei hepgor yn dylanwadu'n rhesymol ar ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wrth ddod i gasgliadau ar y wybodaeth a gynhwysir ynddynt;

- **Adroddiadau ar y cyfrif sy'n dod â materion sydd ag** effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar wariant cyhoeddus i sylw'r Senedd. Rwyf bob amser yn rhoi adroddiad ar gyfrif pan fyddaf yn amodi barn archwilio, a hwyrach y byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad ar faterion heb amodi fy marn os credaf eu bod o ddiddordeb sylweddol;

- **Adroddiad at reolwyr corff y cleient archwiliedig**, gan roi cyngor cyfrifo adeiladol a all gynnwys yn aml argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r system. Mae'r gweithdrefnau archwilio yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd systemau a chofnodion cyfrifo corff, i'r graddau bod hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r archwiliad yn effeithiol. Gall asesiadau o'r fath amlygu gwendidau yn y rheolaeth arinnol, rheolaethau a gweithdrefnau eraill a gaiff eu arfer o fewn swyddogaethau cyfrifo a gweinyddol y corff archwiliedig. Efallai y bydd gwendidau yn dod i'r amlwg hefyd yn ystod gwaith archwilio ychwanegol a wneir i fynd i'r afael â risgiau penodol mewn perthynas â rheoleidd-dra a phriodoldeb. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion i wrthsefyll y gwendidau hynny, ac yn cynnwys ymatebion rheoli ac amserlenni gweithredu y cytunwyd arnynt â rheolwyr y corff archwiliedig.

**2.6** O flwyddyn ariannol 1999-2000, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru byddaf yn parhau i ddilyn y gweithdrefnau cofnodi hyn, ond byddaf yn cyfeirio fy marn archwilio, ac yn rhoi adroddiad ar faterion o arwyddocâd sy'n effeithio ar wariant cyhoeddus yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd fy ngwaith hefyd yn cynnwys canfod a gymhwyswyd y symiau a wariwyd at y dibenion y bwriadodd y Cynulliad ar eu cyfer. Caiff y cyfrifon hynny a restrir yn yr Atodiad y byddaf, o dan statud, yn parhau i'w cyflwyno i'r Senedd fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, eu copïo hefyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Canlyniadau y Gwiriadau Archwilio

### Barn Archwilio

**2.7** Fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, rhoddais farn archwilio ddiamod ar bob un o'r 36 cyfrif Cymreig a ardystiais yn ystod blwyddyn ariannol 1998-99.

## Adroddiadau ar Gyfrifon

**2.8** Gwneuthum dri adroddiad sylweddol ar gyfrifon a gyhoeddwyd ym 1998-99:

- Amgueddfa Genedlaethol Cymru (paragraff 2.9);
- Awdurdod Datblygu Cymru (paragraff 2.12);
- Cyfrifon Cryno'r NHS (Cymru) ar gyfer 1997-98 (paragraff 2.14).

### Amgueddfa Genedlaethol Cymru (HC 17 o 1999-2000)

**2.9** Fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, cyflwynais adroddiad ar daliad afreolaidd a wnaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Rheoli Adnoddau) pan ddaeth ei gontract i ben ym mis Hydref 1998. O dan delerau eu Memorandwm Ariannol, dylai'r Amgueddfa fod wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Swyddfa Gymreig am y taliad hwn (cyfeirir at hyn ym mharagraff 2.36). Nid oedd Swyddog Cyfrifo newydd yr Amgueddfa wedi cael gwybod am fanylion y taliad pan ddechreuodd ar ei swydd ym mis Tachwedd 1998. Pan dynnodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei sylw at hyn gweithredodd yn gywir drwy wneud cais ym mis Awst 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gymeradwyaeth ôl-weithredol.

**2.10** Daeth Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad i'r casgliad ym mis Hydref 1999 na allai roi cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer y taliad. Y rhesymau allweddol dros wrthod hyn oedd:

- Gallai'r Amgueddfa fod wedi osgoi'r gwariant hwn pe baent wedi mynd i'r afael â'r honiadau o gamreoli o dan y trefniadau disgyblu arferol;
- Nid yw'r egwyddor o wneud taliadau arbennig er mwyn arbed costau pellach, pan nad yw'r mater wedi ei gario cyn belled ag y gall drwy'r sianeli arferol, yn cael ei derbyn yn y sector cyhoeddus fel arfer.

**2.11** Fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 1998-99 yr Amgueddfa, gan nad oeddwn yn ystyried bod y taliad yn berthnasol yng nghyd-destun y cyfrifon cyffredinol. Serch hynny, gan nad oedd gan yr Amgueddfa yr awdurdod dirprwyedig i wneud y taliad hwn, roedd yn afreolaidd ac yn fy marn i yn amhriodol cyflwyno'r mater i'r Senedd ym mis Tachwedd 1999. Penderfynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus drosglwyddo fy adroddiad i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny er mwyn iddo ei ystyried.

### Awdurdod Datblygu Cymru (HC 758 o 1998-99)

**2.12** Cyflwynwyd Cyfrifon 1998-99 Awdurdod Datblygu Cymru gerbron y Senedd ynghyd â chyfrifon cau Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru, y diddymwyd y ddau ohonynt yn dilyn eu cynnwys o fewn yr Awdurdod ar 1 Hydref 1998. Fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, cyflwynais adroddiad i'r Senedd ym mis Gorffennaf 1999 ar oblygiadau cyfrifo ac ariannol allweddol trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o'r Bwrdd a'r Awdurdod Tir i Awdurdod Datblygu Cymru. Gwnaeth fy adroddiad hefyd ymdrin â'r Awdurdod yn caffael Welsh Food Promotions Limited.

**2.13** Yn fy adroddiad, cadarnheais fy mod yn fodlon ar y driniaeth gyfrifo a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer y trafodion hyn a bod y gwaith o drosglwyddo data cyfrifo cysylltiedig wedi'i reoli'n gywir. Soniais am y camau a gymerwyd gan yr Awdurod i gysoni polisïau cyfrifo y cyrff a gyfunwyd a nodais fod methodoleg resymol wedi ei sefydlu i ganiatáu i berfformiad ariannol Adran Tir newydd yr Awdurdod gael ei gyflwyno mewn adroddiad ar wahân, fel sy'n ofynnol yn ôl Cyfarwyddeb Cyfrifon yr Asiantaeth. Mae hwn yn fater y byddaf, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn ei archwilio yng nghyd-destun cyfrifon 1999-2000 yr Awdurdod.

**Ffigwr 4: Cyfrifon Cryno yr NHS (Cymru) 1997-98**

- Y pum awdurdod iechyd
- Y 29 ymddiriedolaeth iechyd
- Y 36 Cronfa Elusennol a Ddelir ar Ymddiriedolaeth
- Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru
- Awdurdod Hybu Iechyd Cymru

## Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (HC 261 o 199-99)

**2.14** Cyflwynwyd Cyfrifon Cryno'r NHS (Cymru) ar gyfer 1997-98 gerbron y Senedd ar 9 Mawrth 1999. Mae'r pum set ar wahân hyn o gyfrifon yn gyfanrifau o gyfrifon unigol y sefydliadau a nodwyd yn Ffigwr 4.


**2.15** Mae archwilwyr a benodir gan y Comisiwn Archwilio yn archwilio pob un o'r cyfrifon unigol sylfaenol. Mae'r raddfa amser ar gyfer y broses dau gam hon o reidrwydd yn arwain at gylch archwilio diweddarach, ac felly mae'r datganiadau cryno a archwiliais ac a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1998. Caiff fy nghyfrifon cryno ar gyfer 1998-99, ynghyd â'm hadroddiad arnynt, eu cyhoeddi'n fuan.

**2.16** Fel Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, rhoddais farn ddiamod ar bob un o adroddiadau cryno 1997-98, ond rhoddais adroddiad cyffredinol ar y pum datganiad ariannol. Yn fy adroddiad:

- soniais am berfformiad ariannol awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru sy'n gwaethygu;
- arolygais ddatblygiadau mewn rheolaeth gyfrifo a rheolaeth fewnol;
- nodais fod cynnydd boddhaol yn cael ei wneud er mwyn sicrhau cydymffurfiad y mileniwm o fewn yr NHS yng Nghymru;
- amlygais gostau cynyddol ceisiadau am esgeulustod clinigol a'r mesurau a oedd yn cael eu cymryd i reoli'r risgiau cysylltiedig.

**2.17** Datgelodd yr adroddiad fod yr Awdurdodau Iechyd wedi cofnodi diffygion a oedd yn gwneud cyfanswm o £10.7 miliwn, a bod ymddiriedolaethau'r NHS wedi cofnodi diffygion o £9.1 miliwn. Mae'r diffygion ariannol hyn yn sylweddol, ac fel y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, ymgymerais â dadansoddiad o'r sefydliadau â'r diffygion unigol mwyaf, gan nodi eu cynigion 'cynllun adfer' ar gyfer perfformiad yn y dyfodol.

**Ffigwr 5: Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yr Awdurdodau Iechyd ar 31 Mawrth 1998**




Ffynhonnell: Adroddiad y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol: Cyfrifon Cryno'r NHS (Cymru) 1997-98

## Perfformiad Ariannol Awdurdodau Iechyd yng Nghymru

**2.18** Cynyddodd y diffyg net crynswth o £10.7 miliwn ar gyfer 1997-98 y diffyg cronedig ar gyfer yr awdurdodau iechyd i £25 miliwn ar 31 Mawrth 1998. Mae ffigwr 5 yn dangos y balans cronnus yn y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn ar gyfer pob awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn, gan ddangos tuedd sy'n parhau i waethygu.

## Perfformiad Ariannol Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru

**2.19** Mae gan ymddiriedolaethau'r NHS dri amcan ariannol penodol sydd wedi eu gosod allan yn ffigwr 6.

**Ffigwr 6: Amcanion Ariannol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r NHS yng Nghymru**

- Talu'r costau, gan gymryd un flwyddyn ariannol gydag un arall;
- Parhau o fewn y Terfynau Ariannu Allanol a bennwyd yn statudol;
- Cyflawni cyfradd elw o 6 y cant ar asedau net perthnasol cyfartalog.

Ffynhonnell: Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol: Cyfrifon Cryno'r NHS (Cymru)

**2.20** Gofynion statudol yw'r ddau amcan cyntaf, ac roedd yr olaf yn ofyniad a bennwyd gan y Swyddfa Gymreig gynt. Cyrhaeddodd un deg chwech o'r 29 ymddirieolaeth y targedau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 1997-98. Fodd bynnag, cofnododd naw ymddiriedolaeth ddiffygion sylweddol ar gyfer y flwyddyn. Dengys Ffigwr 7 cyferbyn perfformiadau ariannol yr ymddiriedolaethau wedi gwaethygu dros y tair blynedd hyd at a chan gynnwys 1997-98, a mynegais fy mhryder bod rhagolygon yn dynodi dirywiad pellach ym 1998-99.

## Y berthynas rhwng Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r NHS

**2.21** Mae'r berthynas rhwng yr Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r NHS yn y bôn yn un rhwng prynwr a darparwr gwasanaethau iechyd. Seiliwyd y berthynas hon yn bennaf ar gontractau blynyddol rhwng y ddwy set o sefydliadau. Mae'r Rhaglen Gwella Iechyd wedi ceisio, ymhlith materion eraill, gwella'r berthynas rhwng y sefydliadau hyn.

**2.22** O 1 Ebrill 1999, mae cytundebau tymor hir wedi disodli'r contractau blynyddol, ac mae hyn wedi dileu llawer o'r dyblygu diangen o'r broses. Un o nodau'r rhaglen hon yw lleddfu'r pwysau ariannol ar yr Awdurdodau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau, er bod gennyf rai pryderon o hyd parthed digonolrwydd y cynlluniau adfer a gynigir ar gyfer yr Ymddiriedolaethau.

**2.23** Byddaf yn dychwelyd at y materion hyn yn fy archwiliad o gyfrifon cryno 1998-99.

## Ychwanegu Gwerth - Gwasanaethau i Gleientiaid


**2.24** Mae'r adran nesaf yn y bennod hon yn dadansoddi'r materion a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ag uwch reolwyr pob corff cleient archwiliedig, a nodwyd y rhain yn ystod ei harchwiliad o ddatganiadau ariannol 1998-99.

## Adroddiadau i Reolwyr

**2.25** Er bod safonau rheolaethau ariannol mewn cyrff cleientiaid archwiliedig ledled Cymru yn dda ar y cyfan, yn ystod ei gwaith roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu gwneud argymhellion i reolwyr ar gyfer gwella rheolaethau a systemau ariannol, a chynorthwyo'r prosesau cyfrifo ac archwilio.

**2.26** Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, mae'r archwilwyr allanol yn gwirio'r systemau cyfrifo a'r systemau rheoli mewnol er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol i gefnogi barn archwilio gyffredinol ar y cyfrifon hynny. Pan fyddant yn nodi gwendidau yn y modd y caiff ysystemau hynny eu cynllunio a'u gwiethredu, neu welliannau posibl y gallai'r cleient eu gwneud i effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd eu gweithrediadau, bydd yr archwilwyr yn cynnig cyngor priodol, adeiladol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn sefyllfa unigryw, gan ddarparu safbwynt allanol i'w cleientiaid archwilio ar risgiau a rheolaethau yn seiliedig ar eu gwybodaeth am arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus ledled y DG.

**Ffigwr 7: Perfformiad Ariannol Ymddiriedolaethau'r NHS 1995-96 i 1998-99 (rhagolwg)**




Ffynhonnell: Adroddiad y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol: Cyfrifon Cryno'r NHS (Cymru) 1997-98

**2.27** Mewn llawer o achosion ar lafar y rhoddir y cyngor, ond codir y materion mwy arwyddocaol yn ffurfiol ar ddiwedd yr archwiliad. Anfonir llythyr at uwch reolwyr y cleient, ac mae'n rhaid ofynnol ymateb yn ogystal â rhoi amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhelliad cytûn fel y gellir monitro cynnydd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cydnabod yr angen i weithredu rheolaethau yn gost effeithiol, ac yn anelu at gynhyrchu argymhellion ymarferol sydd o gymorth gwirioneddol i gleientiaid yn eu hymdrechion i weithredu eu busnesau yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae llythyrau at reolwyr yn nodi'r risgiau a amlygwyd parthed y datganiadau ariannol yn sgîl pob aylw a wnaed, ac yn argymell pa gamau i'w cymryd i leddfu'r risgiau hynny.

**2.28** Mae'r ffigwr 8 drosodd yn crynhoi'r argymhellion a wnaed i reolwyr cyrff cleientiaid archwiliedig yng Nghymru, wedi'u rhannu yn ôl categori arsylwi cyffredinol, ynghyd â'r rhifau cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.


**2.29** Dengys y tabl uchod fod y gyfran fwyaf o'r 91 o'r pwyntiau mewn llythyrau rheoli a wnaed i gleientiaid ym 1998-99, wedi delio â materion yn ymwneud â'r systemau rheolaeth fewnol, yn arbennig o ran gweithredu'r rheolaethau rheoli ar lefel uchel. Mae'r adran nesaf o'r adroddiad yn sôn am rai o'r themâu allweddol a oedd yn deillio o bob categori o bwyntiau mewn llythyrau rheoli.

## Triniaeth Gyfrifo

**2.30** Codir y pwyntiau hyn i gynorthwyo cleientiaid wrth iddynt baratoi'r datganiadau ariannol mewn blynyddoedd i ddod, naill ai drwy argymell gweithdrefnau priodol iddynt eu mabwysiadu neu drwy nodi triniaeth briodol ar gyfer mathau penodol o drafodion. Bydd y rhain, yn eu tro, yn helpu i sicrhau effeithlonrwydd yn y broses archwilio mewn blynyddoedd i ddod.

**2.31** Cododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nifer o faterion o ran paratoi'r datganiadau ariannol, gan argymell gwiriadau rheoli llymach o'r datganiadau ariannol drafft am gywirdeb, cysondeb a

**Ffigwr 8: Tabl sy'n dangos nifer y pwyntiau mewn llythyrau rheoli a godwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, wedi'u categoreiddio fesul math.**




rhesymoldeb cyn eu cyflwyno i'r archwilwyr. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cadarnhau bod yr holl nodiadau yn cytuno â'r datganiadau sylfaenol a ategant, a bod y balansau a ddatgelir yn rhesymol yng nghyd-destun gweithgareddau'r sefydliad.

**2.32** Mae llawer o sefydliadau cleient yn cylchlythyru eu haelodau allweddol, megis rheolwyr project a deiliaid cyllideb ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn pennu, er enghraifft, cyflawnder credydwyr, croniadau a gwarediadau o asedau arwyddocaol a gofnodir. Fodd bynnag, nid yw'r unigolion hyn fel arfer yn gyfrifwyr ac felly nid ydynt yn gyfarwydd â'r materion technegol dan sylw. Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod angen i staff Cyllid nifer o gleientiaid arolygu'r holl wybodaeth ariannol a dderbynnir o ffynonellau eraill yn fanylach, ac asesu ei dilysrwydd a'i digonolrwydd. Mae arolygon o'r fath yn golygu dadansoddi gwybodaeth ategol a dylent gynnwys ystyriaeth o resymoldeb balansau o'i gymharu â gweithgaredd ariannol a thueddiadau hanesyddol (e.e. a yw pob ffynhonnell croniadau yn y gorffennol wedi arwain at falansau/weddill priodol ar ddyddiad y Fantolen gyfredol?). Daw buddiannau arolygon o'r fath yn amlwg mewn proses archwilio lyfnach a chyflymach, ac maent yn helpu rheolwyr i fod yn 'berchen' ar eu datganiadau ariannol eu hunain.

**2.33** Er i welliannau gael eu nodi yn ansawdd cyfrifon 1998-99 a gyflwynwyd i'w harchwilio mewn rhai cyrff, mewn eraill roedd yna dystiolaeth o hyd bod y rheolwyr yn dibynnu ar y broses archwilio allanol fel dull amgen yn lle gwiriadau mewnol digonol. Nid yw datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn syml er budd yr archwilwyr, ond dylai rheolwyr eu hystyried fel arf pwysig wrth redeg eu busnes yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd y corff archwiliedig yn cael ei newid yn sylweddol megis symud yn hollol o gyfrifo arian i gyfrifo croniadau (cyfeirir at hyn yn Rhan 5).

**2.34** Gall y broses paratoi ac archwilio cyfrifon fod yn fwy effeithlon ac effeithiol drwy gytuno ar amserlenni manwl ar gyfer cydgysylltu â chleientiaid, sy'n nodi'r amserlen ar gyfer paratoi cyfrifon a'r papurau gwaith i'w darparu i ategu'r

datganiadau ariannol. Gall cyfarfodydd cyswllt cynnar a rheolaidd rhwng rheolwyr y cyrff archwiliedig a'r archwilwyr i weithredu'r gofynion cyfrifo newydd, a chaniatáu i faterion gweithredol sy'n dod i'r golwg ac a allai effeithio ar y prosesau cyfrifo ac archwilio gael eu trafod. Mae hon yn agwedd lle y gall rhai o'r cyrff archwiliedig wneud gwelliannau yn y dyfodol.

## Rheoleidd-dra

**2.35** Mae'r term rheoleidd-dra yn cyfeirio at y gofyniad y dylai trafodyn ariannol fod yn unol â deddfwriaeth sy'n rheoli, ac o fewn awdurdod dirprwyedig y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys dirprwyaethau gan y Senedd, y Trysorlys, a'r sefydliad sy'n noddi. Mae 'Government Accounting' yn enwi'r awdurdodau y mae sefydliadau llywodraeth ganolog yn gweithredu drwyddynt, ac estynnir hyn i bob Corff Cyhoeddus Anadrannol drwy ei Femorandwm Ariannol, sydd hefyd yn nodi pan fydd eisiau troi at yr Adran sy'n noddi am awdurdod/cymeradwyaeth. Ar hyn o bryd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn diweddaru'r Memoranda Ariannol ar gyfer y 13 Corff Cyhoeddus gweithredol a Noddir gan y Cynulliad, i adlewyrchu'r dirprwyaethau newydd o'r Cynulliad.

**2.36** Mae'r Memoranda Ariannol yn nodi bod yn rhaid i'r Cyrff Cyhoeddus Anadrannol gael cymeradwyaeth adrannol ymlaen llaw cyn iddynt wario unrhyw arian newydd, anarferol neu ddadleuol. Mae dirprwyo awdurdod yn galw am daro'r cydbwysedd cywir rhwng angen yr Adran i reoli er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau i'r Senedd a rhyddid y sefydliad i reoli o fewn y terfynau cytûn a bennwyd gan yr Adran.

**2.37** Mewn nifer o gyrff Cymreig, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol eitemau gwariant yn ystod 1998-99 y dylid fod wedi'u cyfeirio at y Swyddfa Gymreig gynt am gymeradwyaeth cyn i'r arian gael ei wario. Mae enghreifftiau yn cynnwys dyfarnu contract un tendr a gorwario'n sylweddol ar gynlluniau. O ganlyniad i'r archwiliad, ymhob achos ceisiodd y corff a archwiliwyd ôl-gymeradwyaeth am y gwariant gan y Swyddfa Gymreig gynt neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymhob achos ond un nid oedd y symiau dan sylw yn berthnasol o ran gwerth nac o ran eu natur a rhoddwyd cymeradwyaeth.

**2.38** Yr eithriad i hyn oedd y taliad a wnaed gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Rheoli Adnoddau) pan ddaeth ei gontract i ben ym mis Hydrref 1998 (cyfeirir at hyn ym mharagraff 2.9).

## Diogelu Asedau

**2.39** Cododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nifer o faterion o ran y ffordd y caiff asedau cyfalaf eu trin. Un o gyfrifoldebau pennaf y Swyddog Cyfrifo yw diogelu asedau endid, ac roedd y pwyntiau hyn fel arfer yn ymwneud â diffyg monitro'r asedau yn ddigonol a diffyg cynnal y gofrestr asedau sefydlog yn amserol ac yn gywir. Mae hon yn rheolaeth allweddol. Dylai asedau sefydlog sy'n bodoli gael eu dilysu'n rheolaidd yn erbyn y gofrestr, a dylai hon, yn ei thro, gael ei chysoni â'r llyfr cyfrifon cyffredinol. Dylid cynnal arolwg rheoli cyfnodol o ddefnydd economaidd parhaus pob ased. Ymhlith yr argymhellion allweddol a wnaed i reolwyr y cleientiaid yr oedd:

- Yr angen am raglen flynyddol o ddilysu'r defnydd economaidd parhaus o eitemau cyfalaf yn gorfforol. Yna efallai y bydd gweithredu i ddileu neu greu lleihad mewn gwerth yn briodol o fewn y Gofrestr Asedau Sefydlog;

- Wrth waredu asedau, dylai rheolwyr ofalu eu bod yn sicrhau bod yr holl gostau cyfalafu cysylltiedig (er enghraifft, costau ymarferoldeb a gwaith safle ar gyfer eiddo) yn cael eu dileu o'r Gofrestr Asedau ac yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'r elw neu'r golled wrth waredu.

## Systemau Rheolaeth Ariannol Fewnol

**2.40** Roedd tua 50 y cant o'r arsylwadau a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymwneud â chategori bras o fethiannau yn y systemau rheolaethau ariannol mewnol sydd gan gleientiaid. Yn ogystal â nodi gwendidau penodol mewn rheolaethau ar lefel trafodion, argymhellodd yr arsylwadau hefyd y dylid defnyddio rheolaethau rheoli ar lefel uchel yn fwyfwy. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am weithgareddau monitro cywir, lle yr ymchwilir yn llawn i eithriadau ac amrywiadau a nodwyd a'u datrys. Er enghraifft, gall dadansoddiad misol o wariant all-dro, gydag esboniadau ar gyfer amrywiadau yn y cyllidebau, ganiatáu i reolwyr nodi meysydd lle y gellir gwneud arbedion ar unwaith, neu feysydd lle y caiff gwariant ei wastraffu, yn ogystal â nodi adnoddau sydd ar gael i'w hailddosbarthu. Er bod llawer o gyrff yn gweithredu system rheolaeth effeithiol dros drafodion unigol, efallai na fydd dibynnu'n llwyr ar y rheolaethau hyn yn caniatáu i'r adnoddau hyn gael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**2.41** Fodd bynnag, ni chafodd y materion hyn effaith sylweddol ar ddibynadwyedd y datganiadau ariannol, oherwydd fy mod yn gallu cael sicrwydd o ffynonellau archwilio eraill i ategu'r ffigurau yn y cyfrifon. Yn yr un modd ni wnaeth absenoldeb rheolaethau o'r fath beryglu gallu pob Swyddog Cyfrifo mewn ffordd berthnasol i ddod i'r casgliad bod ei systemau rheolaeth ariannol fewnol wedi bod yn gweithredu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

## Monitro Cynlluniau Grant

**2.42** Talodd y Swyddfa Gymreig gynt tua £4 biliwn mewn grantiau i drydydd partïon yn ystod blwyddyn ariannol 1998-99, ac eithrio'r NHS yng Nghymru, ond roedd hyn yn cynnwys arian i'w Chyrff Cyhoeddus Anadrannol ac i lywodraeth leol. Dosbarthodd y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol eu hunain tua £500 miliwn mewn arian grant i hybu eu hamcanion. Roedd cyfran sylweddol o hyn yn ymwneud ag ariannu sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r cynlluniau grant unigol yn amrywio llawer o ran maint a chymhlethdod, er bod risgiau penodol yn gymwys i bob un ohonynt.

**2.43** Mae'r cyrff sy'n rhoi grant yn gosod amodau ar gyfer pob grant a ddyfernir. Gall y rhain gynnwys amodau cychwynnol ar gyfer bod yn gymwys, meini prawf parhaus drwy gydol y cyfnod grant neu berfformiad penodol cyn talu grant neu wedi hynny. Yn aml bydd gofyniad i'r derbynnydd barhau i gydymffurfio ag amodau penodol am gyfnod penodol ar ôl i'r rhandaliad grant diwethaf gael ei dalu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i brojectau cyfalaf. Os na fodlonir yr amodau hyn, yna gall y derbynnydd fod yn agored i ad-dalu peth o'r grant o dan weithdrefnau 'adfachu' neu'r grant cyfan.

**2.44** Cododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nifer o bryderon pwysig â chyrff dosbarthu grantiau ynglþn â'r ffordd y maent yn monitro projectau grant, yn arbennig yn y cyfnod ar ôl cwblhau. Er na nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw achosion pan oedd yr asiantaeth wedi methu â mynd ar ôl derbynnydd y grant am beidio â chydymffurfio â'r amodau grant, argymhellwyd ganddynt fod sawl sefydliad cleient yn ystyried effeithiolrwydd eu gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod dibenion y grantiau yn parhau i gael eu bodloni.

**2.45** Mae gan bob sefydliad weithdrefnau yn eu lle i fonitro cynlluniau ar ôl eu cwblhau, ac mae rhai yn mabwysiadu cyfres o ymweliadau arolygu yn seiliedig ar ddadansoddiad o risg. Mae Ffigwr 9 yn rhestru anghysondebau a chanfyddiadau cyffredin o arolwg o weithgareddau monitro o'r fath (nid yw pob un o'r canfyddiadau hyn yn ymwneud - â phob corff o'r fath).

**Ffigwr 9: Canfyddiadau cyffredin yn sgîl dadansoddi Monitro ar ôl Cwblhau**

- Nid oes yr un ymagwedd safonol tuag at fonitro a yw derbynwyr yn cydymffurfio â'r amodau a nodir yn y llythyr cynnig;
- Dim ond arolwg cymharol byr ar ôl cwblhau a gaiff rhai cynlluniau, gyda gweithdrefnau anffurfiol ar gyfer nodi cydymffurfiad parhaus ag amodau'r grant;
- Mae yna amrywiad eang hefyd rhwng cynlluniau yn y raddfa amser sy'n rhan o amodau grant ar gyfer parhau i gydymffurfio ar ôl cwblhau. Ac mae rhai graddfeydd amser yn ymddangos yn fyr. Er enghraifft, o dan un cynllun, lle y telir cyfraniad i'r cyflogwyr tuag at gostau hyfforddi, dim ond am 28 diwrnod y bydd angen iddynt gadw'r cyflogeion hynny
- Ar gyfer rhai cynlluniau lle y dyfernir grant ar sail flynyddol, mae gofyniad fel arfer i gyflwyno tystysgrifau archwilio trydydd parti ar ôl i'r cyfnod ddod i ben. Dylai hyn roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifo bod yr arian grant wedi'i ddefnyddio at ddiben y bwriad. Fodd bynnag, yn aml nid yw'r amserlen gyflwyno yn caniatáu'r sicrwydd hwn cyn i'r Swyddog Cyfrifo lofnodi ei ddatganiadau ariannol neu ei datganiadau ariannol ei hun. Dylai derbyn a dadansoddi'r tystysgrifau hyn yn brydlon fod yn rhan hanfodol o'r system reoli mewnol, gan ganiatáu i'r corff sy'n dosbarthu'r grant gymryd camau priodol cyn gynted ag y bo modd. Dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod yr amserlen cael sicrwydd trydydd parti yn gyson â'r cylch paratoi cyfrifon blynyddol.

**Ffigwr 10: Materion yr Ymdrinnir â Hwy mewn Arolwg Sicrwydd Ychwanegol Nodweddiadol**

Mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau prawf a gynllunnir i nodi:

- A oedd y systemau rheoli wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod cyfrifo;
- A oedd gan y sefydliad drefniadau archwilio mewnol effeithiol yn eu lle;
- A oedd y sefydliad wedi cydymffurfio â'r Memorandwm Ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo;
- A weithredodd y rheolwyr ar y materion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol, os oedd hynny'n briodol;
- A ddyfarnwyd grantiau yn unol â phenderfyniadau priodol.
- A fu unrhyw achlysuron pan nad oedd aelodau o'r staff wedi cyrraedd y safonau integredd ariannol uchel a ddisgwylid gan y rheiny a oedd yn gyfrifol am reoli arian y cyhoedd;
- A wariwyd yn ormodol neu'n wastraffus yn ystod y cyfnod;
- A oedd y gweithdrefnau tendro a'r gweithdrefnau eraill yn unol â'r arfer gorau yn y sector cyhoeddus;
- A gafodd yr holl ffurflenni treth priodol i'r Swyddfa Gymreig eu llunio'n gywir ac yn brydlon (gan gwmpasu materion megis colledion, gwarediadau asedau sylweddol a chontractau tender unigol).

## Amgylchedd Rheoli Ariannol

**2.46** Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gyfres o arolygon "sicrwydd ychwanegol", ar gais y Swyddfa Gymreig gynt, i ymchwilio i agweddau penodol ar weithrediadau o fewn Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a allai effeithio ar weinyddu ariannol y sefydliadau hynny. Bwriad y gwaith hwn oedd rhoi sicrwydd i reolwyr y corff archwiliedig a'r Swyddfa Gymreig gynt yn ogystal â'r hyn a gafwyd o archwiliad allanol safonol cyfrifon 1998-99. Gall y gwaith hwn ychwanegu gwerth hefyd drwy argymell gwelliannau i systemau a gweithdrefnau.

**2.47** Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yr arolygon hyn ar gyfer 11 o'r 13 o Gyrff Cyhoeddus Anadrannol a noddwyd gan y Swyddfa Gymreig. Cafodd union gwmpas y gwaith hwn, y cytunodd y Swyddfa Gymreig a phob corff archwiliedig arno'n gyffredinol, ei deilwra i'r sefydliad unigol. Mae Ffigwr 10 yn rhestru'r materion a gwmpesir fel arfer gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel rhan o arolwg o'r fath.

**2.48** Daeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i'r casgliad yn sgîl eu hymchwiliadau bod yr amgylchedd rheoli ariannol ymhob sefydliad yn foddhaol ar y cyfan, a bod yr holl bwyntiau allweddol a ddygwyd ymlaen o'r arolygon a gynhaliwyd ganddynt ym 1997-98 wedi'u gweithredu'n briodol. Bu gwelliant amlwg yn lefel gyffredinol y cydymffurfio â'r Memoranda Ariannol ers i'r ymarferion hyn gael eu cynnal ar sail cynllun peilot ym 1995-96. Y ddwy thema gyffredin a ddaeth yn amlwg o gylch 1998-99 oedd y cyfle i wella'r gwaith o fonitro grantiau a'r methiannau i wneud cais ar yr adeg gywir am gymeradwyaeth am wariant newydd a dadleuol. Ymdriniwyd yn fanwl â'r ddau fater hwn yn gynharach yn y bennod hon.

# RHAN 3: GWEITHIO GYDA'R ARCHWILIAD MEWNOL

## Cyflwyniad

**3.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn dadansoddi rôl yr archwiliad mewnol, o fewn fframwaith cyffredinol rheoli corfforaethol, ac yn crynhoi:

- Rôl a chyfrifoldebau'r archwilydd mewnol (paragraff 3.2);
- Y sicrwydd a roddir gan bennaeth perthnasol ar archwiliad mewnol ynglŷn ag effeithiolrwydd systemau rheoli i'r Swyddog Cyfrifo, a'r themau allweddol sy'n amlwg o waith 1998-99 (paragraff 3.5);
- Y berthynas a ddatblygir rhwng archwilwyr allanol a mewnol, a'r ymdrechion i leihau'r baich archwilio cyffredinol drwy gydweithrediad a deialog (paragraff 3.8);
- Sut y disgwylir i broffil ar archwiliad mewnol barhau i gynyddu wrth i faterion rheoli corfforaethol gynyddu o ran pwysigrwydd (paragraff 3.12).

## Rôl yr Archwilydd Mewnol

**3.2** Arfarniad annibynnol yw'r archwiliad mewnol o fewn y sefydliad, sy'n gweithredu fel gwasanaeth i reolwyr drwy fesur a gwerthuso effeithiolrwydd y system reoli mewnol, ac felly mae'n rhan allweddol o'r systemau rheolaeth ariannol o fewn pob sefydliad. Er mwyn bod gyda'r mwyaf effeithiol, dylai'r archwiliad mewnol fod yn annibynnol ar reolwyr pan fydd yn briodol, gyda hawliau cofnodi uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifo a Phwyllgor Archwilio'r corff.

**3.3** Mae'n hollbwysig bod gan bob sefydliad wasanaeth archwilio mewnol proffesiynol a chadarn sy'n darparu dadansoddiad trylwyr a chygnor i reolwyr yr endid. Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan yr archwiliad mewnol yn elfen allweddol o'r sicrwydd a gaiff y Swyddog Cyfrifo ynglŷn â gweithredu systemau rheoli'r sefydliad yn effeithiol. Trafodir hyn ymhellach yn Rhan 4: Rheoli Corfforaethol. Diffinnir rôl yr archwilydd mewnol yn Ffigwr 11.

**Ffigwr 11: Rôl yr Archwilydd Mewnol**

- Dadansoddi'r system reoli mewnol a sefydlu rhaglen arolygu;
- Nodi a gwerthuso'r rheolaethau a sefydlir mewn systemau er mwyn cyflawni amcanion y sefydliad yn y dull mwyaf darbodus ac effeithiol;
- Rhoi adroddiad ar ganfyddiadau a chasgliadau a, lle bo hynny'n briodol, gwneud argymhellion ar gyfer gwella;
- Rhoi barn ar ddibynadwyedd y rheolaethau o fewn y system sy'n cael ei harolygu;
- Darparu sicrwydd yn seiliedig ar werthuso'r system reoli mewnol.

Ffynhonnell: Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth

## Darparwyr Gwasanaethau Archwilio Mewnol yng Nghymru


**3.4** Mae gan lawer o sefydliadau eu swyddogaeth archwilio mewnol eu hunain, er bod mwyafrif y 16 corff a gwmpesir gan yr adroddiad hwn bellach yn cael y gwasanaeth hwn drwy roi'r gwaith ar gontract i gwmnïau cyfrifo. Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer Estyn a Cadw, y mae swyddogion y Cynulliad yn ymgymryd â'u swyddogaethau ariannol. Crynhoir y ddarpariaeth o wasanaethau archwilio mewnol yn Ffigwr 12.

## Sicrwydd a Roddwyd gan Archwilwyr Mewnol ar gyfer 1998-99

**3.5** Roedd pennaeth perthnasol Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i bob Swyddog Cyfrifo ynglÞn â gweithredu systemau rheolaeth ariannol fewnol eu sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 1998-99. Serch hynny, cododd pob tîm archwilio mewnol nifer o faterion yn ymwneud â'r systemau a archwiliwyd.

**3.6** Drwy'r 'Asesiadau Anghenion Archwilio' ffurfiol y bydd archwilwyr mewnol yn ymgymryd â hwy ac y bydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol yn cytuno arnynt, mae'r archwilwyr mewnol ymhob corff yn ceisio cwmpasu ystod o systemau craidd bob blwyddyn. Archwilir systemau allweddol eraill ar sail gylchol, wedi'u pennu gan ddadansoddiad o'r risg o wallau sy'n gynhenid yn y systemau hynny. Arolygodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y trefniadau archwilio mewnol mewn Cyrff Cyhoeddus Anadrannol fel rhan o'r gwaith Sicrwydd Ychwanegol a wnaed ar gais y Swyddfa Gymreig gynt (cyfeirir at hyn ym mharagraff 2.46). Daeth i'r casgliad bod y cwmpas a'r sylw a roddwyd i bob archwiliad mewnol ymhob un o'r cyrff a arolygwyd yn ddigonol.

**Ffigwr 12: Darparwyr Gwasanaethau Archwilio Mewnol yng Nghymru**




Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

**3.7** Codwyd nifer o themâu cyffredinol allweddol a materion pwysig gan yr archwilwyr mewnol ym 1998-99, ac roedd gan y rhain lawer yn gyffredin â chanfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a nodwyd yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn:

- Roedd dangosyddion y gellid tynhau'r **gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan rai sefydliadau ar gyfer arfarniad cychwynnol ceisiadau am gymorth grant**. Er enghraifft, mae arfarnu ceisiadau grant yn aml yn golygu dadansoddi data ariannol gan rai nad ydynt yn gyfrifwyr. Yn aml mae trefniadau anffurfiol ar gyfer ceisio cyngor gan staff Cyllid, ond mae yna bosibiliadau i wella'r broses hon;

- Codwyd materion cyffredinol hefyd ynglŷn â'r **berthynas rhwng cyrff sy'n rhoi grantiau a derbynwyr y grantiau hynny**. Yn arbennig, cododd archwilwyr mewnol argymhellion o ran monitro'r sefydliadau hynny, a defnyddio'r arian hwnnw yn briodol;

- Pan fydd **amheuaeth ynglŷn â gweithgaredd twyllodrus** naill ai o fewn sefydliad neu gan dderbynwyr grantiau, bydd rheolwyr fel arfer yn gofyn i'r archwiliad mewnol ymchwilio i hyn. Bu nifer fechan o arolygon o'r fath yn ystod 1998-99, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â honiadau yn erbyn derbynwyr grantiau, ac arweiniodd hyn at reolwyr yn trosglwyddo rhai achosion i'r heddlu er mwyn ymchwilio iddynt ymhellach. Mae archwiliad mewnol yn darparu aseswr pwysig, annibynnol o dan yr amgylchiadau hyn. Ar ôl i'r heddlu ystyried y dystiolaeth, ac mewn rhai achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron, nid arweiniodd yr un o'r achosion hyn at erlyniad. Serch hynny, roedd archwilwyr mewnol yn gallu argymell tynhau rheolaethau rhywfaint. Lle bo'n briodol, ymgymerwyd â gweithdrefnau disgyblu mewnol yn erbyn staff a oedd wedi troseddu;

- Bu rhai achosion o **dor-cymhwyso trefniadau tendro penodedig**. Mae nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu mewn meysydd arbenigol iawn ac felly dim ond ar nifer gyfyngedig o gyflenwyr y gallant alw yn aml. Mae'n bwysig iawn mewn achosion o'r fath bod y rheolau tendro yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn briodol er mwyn sicrhau bod y gwerth gorau am arian yn cael ei sicrhau;

- Roedd **cyflawnder casglu incwm** yn thema arall a nodwyd gan yr archwiliad mewnol. Gwnaed argymhellion i wella systemau er mwyn sicrhau bod yr holl incwm yn cael ei nodi a'i gasglu'n briodol pan fydd yn ddyledus.

## Dibynnu ar yr Archwiliad Mewnol

**3.8** Wrth gyflawni ei archwiliadau o ddatganiadau ariannol 1998-99, ystyriodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol weithgareddau archwilwyr mewnol pob corff archwiliedig sy'n ymdrin â'r risgiau archwilio i'r datganiadau arianol, ac a yw hi'n bosibl i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gael sicrwydd cost-effeithiol o'r gwaith hwn. Mae wedi creu perthynas dda â'r archwilwyr mewnol penodedig drwy gyfarfodydd cyswllt rheolaidd, rhannu syniadau a thrafodaethau ar risgiau archwilio ac amgylcheddau rheoli.

**3.9** Roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu cael cryn sicrwydd o waith a gyflawnwyd gan yr archwiliad mewnol yn ystod blwyddyn ariannol 1998-99 mewn rhai o'r cyrff a archwiliwyd. Mewn rhai achosion, cytunodd yr archwilwyr mewnol ymgymryd â gwaith penodol i leihau profion yr archwiliad allanol. Bodlonodd y gwaith hwn amcanion yr archwilwyr mewnol fel y'u nodwyd yn yr Asesiadau o Anghenion Archwilio, tra'n ymdrin hefyd â'r risgiau archwilio posibl sy'n effeithio ar archwiliad allanol o

**Ffigwr 13: Enghreifftiau o feysydd lle roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu rhoi mesur o ddibyniaeth ar waith yr Archwiliad Mewnol, mewn perthynas â rhai o'r cyrff a archwiliwyd**

- Grantiau, gan gynnwys arolygon o gymeradwyo a monitro projectau;
- Gwariant cyflogres, yn benodol y rheolaethau mewn personél a chyllid i sicrhau bod y cyflogeion cywir yn cael y taliadau cywir;
- Gwariant nad yw ar y gyflogres, gan gynnwys rheolaethau dros gymeradwyo a thalu anfonebau;
- Incwm, gan gynnwys arolygon o gyflawnder.

ddatganiadau ariannol. Mae cydweithredu o'r fath yn lleihau cost a baich y broses archwilio.

**3.10** Deilliodd y mwyafrif o'r sicrwydd archwilio a gafwyd o brofion ar reolaethau'r archwiliad mewnol ar lefel trafodion, gan alluogi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i wneud arolwg mwy cyffredinol neu arolwg lefel uchel a lleihau ei meintiau sampl lle bo hynny'n briodol. Nodir enghreifftiau o'r prif feysydd lle bu'n bosibl i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddibynnu ar archwiliad mewnol yn ystod 1998-99 yn Ffigwr 13.

**3.11** Mae'r cydweithrediad hwn yn lleihau'r baich archwilio ar sefydliadau drwy gydlynu ymdrech archwilio ac osgoi dyblygu profion. Mae buddiannau sylweddol i'r holl bartïon dan sylw o ganlyniad i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o'r fath.

## Edrych Ymlaen

**3.12** Gan fod rheoli corfforaethol yn dod yn fater cynyddol bwysig o fewn y sector cyhoeddus (gweler Rhan 4), mae rôl yr archwiliad mewnol wedi magu arwyddocâd newydd. Mae cyflwyno Pwyllgorau Archwilio o fewn cyrff cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf wedi codi proffil yr archwilydd mewnol. Yn yr un modd, mae datblygu'r Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol wedi arwain at yr angen i bob Swyddog Cyfrifo ddangos yn agored bod ei sefydliad yn gweithredu argymhellion yr archwiliad menwol. Ar gyfer yr archwilydd allanol, mae hyn yn rhoi cyfle newydd i ailwerthuso'r ddibyniaeth y gellir ei rhoi ar waith archwilio mewnol a chynyddu ymhellach raddau'r cydweithrediad. Dylai hyn yn ei dro leihau'r baich archwilio ar gleientiaid, gan hybu archwiliadau mwy darbodus, effeithlon ac effeithiol.

# RHAN 4: RHEOLI CORFFORAETHOL

## Cyflwyniad

**4.1** Fel yn y sector preifat, mae pwysigrwydd trefniadau rheoli corfforaethol cadarn yn ennill proffil uwch yn fwyfwy ymhlith cyrff yn y sector cyhoeddus. Mae'r adran hon yn nodi datblygiad rheolaeth gorfforaethol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda phwyslais arbennig ar sut y cafodd ei gymhwyso o fewn y sector cyhoeddus, ac yn asesu canlyniadau blwyddyn gyntaf y datgeliadau rheoli corfforaethol gorfodol o fewn y datganiadau ariannol.

## Datblygu Rheoli Corfforaethol

### Diffiniad

**4.2** Mae rheolaeth gorfforaethol yn cyfeirio at y ffordd y mae bwrdd sefydliad (neu'r hyn sy'n cyfateb) yn pennu polisi ariannol, ac yn goruchwylio sut y caiff wei weithredu. Yn y sector cyhoeddus, mae hyn yn cyfeirio'n benodol at y priodoldeb y bydd sefydliadau yn ei ddangos dros yr arian a reolir ganddynt.

### Pwyllgor Cadbury - Rheoli Corfforaethol

**4.3** Cyhoeddodd Pwyllgor Cadbury adroddiad ym 1992 yn dadansoddi'r agweddau ariannol ar reoli corfforaethol, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer cwmnïau yn y sector preifat o ran rôl aelodau'r Bwrdd a sefydlu pwyllgorau archwilio.

**4.4** Yn dilyn hyn, cyhoeddodd y Trysorlys eu "Côd Ymarfer Gorau ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus" ym mis Mehefin 1994. Bwriad y côd oedd bod yn fodel ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Adnadrannol gweithredol a sefydliadau tebyg. Nododd rolau a chyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd gan roi arweiniad ar sefydlu pwyllgorau archwilio o fewn y sector cyhoeddus.

### Pwyllgor Nolan - Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

**4.5** Ystyriodd Pwyllgor Nolan ar 'Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus' fater rheoli corfforaethol hefyd. Cyhoeddodd y Pwyllgor bapur ymgynghorol ar 'Spending Public Money: Government and Audit Issues' ym mis Mawrth 1996. O ganlyniad i hyn, cyhoeddodd y Trysorlys arweiniad newydd, gan gynnwys diweddariad i'r llawlyfr 'Government Accounting'.

### Gweithgor Rutteman - Datgeliadau mewn Datganiadau Ariannol

**4.6** Gweithredodd Gweithgor Rutteman ar adroddiad Cadbury, gan gynnig y dylai sefydliadau ddatgelu gwybodaeth am eu systemau rheolaeth ariannol fewnol o fewn eu datganiadau ariannol (cyfeirir at hyn ym mharagraff 4.11), ac yn ddiweddar mae Pwyllgor Turnbull wedi estyn hyn i bob system rheolaeth fewnol (cyfeirir at hyn ym mharagraff 4.18).

## Cymhwyso Rheoli Corfforaethol

### Pwyllgorau Archwilio

**4.7** Roedd Côd y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sefydlu pwyllgorau archwilio, ac ymgorfforwyd y gofyniad hwn yn 'Government Accounting'. Bellach mae gan bob corff a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, heblaw am Estyn, Bwyllgorau Archwilio sy'n arolygu materion rheoli corfforaethol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi argymell bod Estyn yn sefydlu Pwyllgor Archwilio cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac mae rheolwyr Estyn yn ystyried hyn ar hyn o bryd.

**4.8** Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i drafod eu Llythyr Rheoli blynyddol a materion a chanfyddiadau eraill sy'n deillio o'u harchwiliad o'r cyfrifon. Mae gan bob Pwyllgor Archwilio y cyfle i

geisio gwybodaeth bellach gan reolwyr y corff archwiliedig a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a monitro hefyd sut y gweithredir yr argymhellion a wnaed i wella rheolaeth ariannol.

**4.9** Ar sawl achlysur yn ystod 1998-99, rhoddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gyflwyniadau i'r Pwyllgorau Archwilio. Ymhlith yr enghreifftiau diweddar mae trafodaethau ar y strategaeth archwilio allanol, a rôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ôl datganoli.

**4.10** Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru Bwyllgor Rheoli Corfforaethol, wedi'i gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol, sy'n arolygu materion rheoli corfforaethol sy'n ymwneud â'i weithgareddau a'i swyddogaethau. Mae hyn ar wahân yn hollol i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad, sydd yn bwyllgor statudol o Aelodau'r Cynulliad ac yn gweithredu'n debyg i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

## Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol

### Datblygu'r Gofynion Datgelu

**4.11** Yn dilyn canfyddiadau Pwyllgor Cadbury, sefydlwyd Gweithgor Rutteman i ystyried goblygiadau eu cynnig y dylai cyfrifon gynnwys datganiad gan y cyfarwyddwyr yn ymwneud ag effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Ystyriwyd yn benodol y rheolaethau ariannol mewnol, hynny yw y rheolaethau a bennwyd er mwyn darparu sicrwydd rhesymol parthed:

- Diogelu asedau rhag eu defnyddio neu eu gwaredu heb awdurdod; a
- Cynnal cofnodion cyfrifo cywir a dibynadwyedd gwybodaeth ariannol a ddefnyddir o fewn y busnes neu i'w chyhoeddi.

**4.12** Daeth Grŵp Rutteman i'r casgliad y dylai cyfarwyddwyr ddarparu gwybodaeth am y system rheolaeth ariannol fewnol, ond nad oes angen iddynt roi adroddiad ar ei effeithiolrwydd.

### Cymhwyso yn y Sector Cyhoeddus

**4.13** Mae'r Trysorlys wedi mabwysiadu argymhellion Grŵp Rutteman, gan gyhoeddi arweiniad i bob corff llywodraeth ganolog ar ffurf llythyrau 13/97 a 4/99 'Annwyl Swyddog Cyfrifo'. Mae'r arweiniad hwn yn nodi'r Swyddog Cyfrifo fel y person sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r datganiad, ac yn nodi cynnwys 'Datganiad ar System Rheolaeth Ariannol Fewnol'. Daeth cynnwys y datganiad hwn yn y cyfrifon blynyddol yn orfodol o 1998-99 a dylai pob corff gynnwys y cyfeiriadau penodol a nodir yn Ffigwr 14 cyferbyn.

**4.14** Mae arweiniad y Trysorlys yn nodi rhai gweithdrefnau allweddol a ddylai fod yn rhan o system reoli pob sefydliad. Rhoddir enghreifftiau o'r gweithdrefnau hyn, a fabwysiadwyd gan sefydliadau llywodraeth ganolog yng Nghymru yn Ffigwr 15 cyferbyn.

**4.15** Daw un elfen bwysig o'r sicrwydd a geir gan y Swyddog Cyfrifo o waith swyddogaeth Archwiliad Mewnol y sefydliad. Mae'r broses gyfan yn dechrau cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, pan fydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Archwilio, a dylai ddod i ben pan gyflwynir yr adroddiad archwilio mewnol blynyddol i'r Pwyllgor, cyn i'r Swyddog Cyfrifo lofnodi'r Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol. Mae 'Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth' yn ei gwneud yn ofynnol i archwiliad mewnol roi barn i'r Swyddog Cyfrifo ar effeithiolrwydd y system reoli (cyfeirir at hyn ym mharagraff 3.3).

### Rôl yr Archwilydd Allanol

**4.16** Fel y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, rwyf yn cynnwys cyfeiriad at y Datganiad ar y System Rheolaeth Ariannol Fewnol yn fy marn archwilio am y cyfrifon blynyddol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'r datganiad yn bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall sy'n deillio o'r archwiliad. Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, byddaf yn dilyn arfer tebyg mewn blynyddoedd i ddod, yn unol â safonau a

**Ffigwr 14: Materion allweddol i'w datgelu yn y Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol**

- Cydnabyddiaeth gan y Swyddog Cyfrifo mai ef neu hi sy'n gyfrifol am system rheolaeth ariannol fewnol y sefydliad. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn deillio o Femorandwm y Swyddog Cyfrifo, sy'n gosod tasg i bob Swyddog Cyfrifo sicrhau y dilynir y gweithdrefnau ariannol cywir, y cedwir cofnodion cyfrifo cywir, a bod arian y cyhoedd yn cael ei reoli'n gywir ac yn dda;
- Eglurhad y gall system o'r fath roi sicrwydd rhesymol yn unig ac nid absoliwt yn erbyn camddatgan neu golled berthnasol;
- Disgrifiad o'r gweithdrefnau allweddol a gynlluniwyd i ddarparu rheolaeth ariannol fewnol effeithiol;
- Cadarnhad y bu arolwg o effeithiolrwydd y system rheolaeth ariannol fewnol.
- Nid oes yn rhaid i ganlyniadau'r arolwg hwn gael eu datgelu yn y datganiad, er os bydd gwendidau arwyddocaol yn bodoli sydd wedi arwain at golledion perthnasol, digwyddiadau annisgwyl neu ansicrwydd, yna dylid rhoi manylion. Er mwyn rhoi'r sicrwydd hwn, bydd angen i'r Swyddog Cyfrifo gael tystiolaeth oddi mewn i'r sefydliad

Ffynhonnell: Llythyr DAO 13/97 (Trysorlys EM)

**Ffigwr 15: Gweithdrefnau Allweddol sy'n Rhan o'r System Reoli**

- Camau y mae'r sefydliad wedi'u cymryd er mwyn sicrhau bod amgylchedd rheoli priodol ar gael. Gallai'r camau hyn gynnwys cyfrifoldebau rheoli a ddiffinnir yn glir, a thystiolaeth o ymateb i fethiannau rheoli. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cyfraniad gweithredol gan reolwyr i arolygu sut y gweithredir y rheolaethau sydd yn eu lle;
- Y prosesau a ddefnyddir i nodi risg i fusnes a gwerthuso'r goblygiadau ariannol. Mae risg i fusnes yn ymwneud â'r ffactorau mewnol ac allanol a all effeithio ar sefyllfa ariannol y sefydliad. Gall cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, arolygu cyllidebau a'u gwneud yn hyblyg, asesu lefelau all-dro ac ystyried achos ac effaith amrywiadau, gynrychioli proses briodol ar lefel yr endid, wedi'i hategu gan system o gyfarwyddiadau ariannol, arferion dirprwyo, rhannu dyletswyddau, a dulliau canfod ac atal twyll;
- Manylion am y prif systemau gwybodaeth sydd yn eu lle. Er mwyn i sefydliad weithredu'n effeithiol, mae angen strwythurau cofnodi wedi'u diffinio'n glir, a gwybodaeth reoli sydd ar gael yn hawdd sy'n mynd i'r afael â'r risgiau cyfredol i fusnes a'r rhai sydd ar ddod ac â pherfformiad ariannol, ac sy'n arwain at gamau priodol yn cael eu cymryd gan y rheolwyr;
- Gweithdrefnau ar gyfer monitro effeithiolrwydd y system rheolaeth ariannol fewnol. Bydd y rhain bron yn sicr yn cynnwys swyddogaeth archwilio mewnol sy'n adrodd i Bwyllgor Archwilio, ond efallai y bydd hefyd yn cynnwys arolygon rheolwyr, ymgynghori allanol, ac arolygon pendant eraill. Mae'n bwysig sicrhau y cesglir digon o dystiolaeth gan bob un o'r ffynonellau hyn er mwyn caniatáu i'r Swyddog Cyfrifo ddod i gasgliad am effeithiolrwydd y system.

Ffynhonnell: Llythyr DAO 13/97 (Trysorlys EM)

gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Nid yw'n ofynnol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ymgymryd â gwaith ychwanegol i gadarnhau casgliadau'r Swyddog Cyfrifo, a dim ond i'r graddau y mae'n ofynnol iddynt lunio barn am y datganiadau ariannol y byddant yn arolygu systemau. Pan fyddant yn nodi unrhyw welliannau posibl y gellid eu gwneud i systemau rheoli, gwnânt argymhellion priodol i'r rheolwyr.

**4.17** Fel y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, nodais fod pob Swyddog Cyfrifo yn gallu bodloni ei hun o ran effeithiolrwydd y systemau rheolaeth ariannol fewnol a oedd yn gweithredu yn ystod blwyddyn ariannol 1998-99. Ni fu unrhyw enghreifftiau pan nodais unrhyw fethiant i gydymffurfio ag arweiniad y Trysorlys, ac nid oedd unrhyw anghysondebau na chamgynrychioliadau yn amlwg o'r gwaith archwilio.

## Datblygiadau yn y Dyfodol

**4.18** Sefydlodd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr weithgor, o dan gadeiryddiaeth Nigel Turnbull, i ddatblygu egwyddorion rheoli corfforaethol effeithiol. Cyflwynodd Pwyllgor Turnbull adroddiad ym mis Ebrill 1999, yn cynnig y dylai cwmpas y Datganiad Rheolaeth Ariannol Fewnol presennol gael ei ehangu i ymgorffori pob system rheolaeth fewnol. Byddai hyn yn dod â rheolaeth dros feysydd megis systemau gweithredol a systemau gwneud polisi o fewn cwmpas y datganiad.

**4.19** Nid yw'r trysorlys wedi penderfynu eto sut y bydd arweiniad y Sefydliad yn effeithio ar y sector cyhoeddus, ond byddai mabwysiadu'r côd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyfrifo a Phwyllgorau Archwilio ystyried yn fanylach reolaeth y sefydliad dros risg i fusnes yn y cyd-destun ehangaf posibl.

**4.20** Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn argymell y dylai Swyddogion Cyfrifo ac aelodau o'r Pwyllgor Archwilio ddechrau ystyried goblygiadau cynnig Pwyllgor Turnbull cyn gynted ag y bo modd. Yn arbennig, mae angen arolygu i ba raddau y ceir sicrwydd ar hyn o bryd ynglþn â sut i weithredu systemau anariannol yn effeithiol, a phennu a oes angen unrhyw weithdrefnau ychwanegol.

# RHAN 5: CYFRIFO A CHYLLIDEBU ADNODDAU

## Cyflwyniad

**5.1** Mae'r bennod hon yn nodi:

- Y cefndir i'r symud o gyfrifo arian i gyfrifo adnoddau ar draws llywodraeth ganolog (paragraff 5.2);
- Canlyniadau ymchwil y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r parataoadau hyn, sy'n dangos bod rhai materion sylfaenol o hyd i'r Cynulliad ymdrin -â hwy (paragraff 5.4);
- Goblygiadau'r materion hyn ar gyfer Cyfrifon Adnoddau cyntaf y Cynulliad a gyhoeddwyd ar gyfer 1999-2000 (paragraff 5.8);
- Y paratoadau a wnaed gan Estyn, a fydd hefyd yn paratoi Cyfrifon Adnoddau (paragraff 5.10);
- Datblygiadau yn y dyfodol y tu hwnt i flwyddyn gyntaf Cyfrifon Adnoddau (paragraff 5.11).

## Paratoadau ar gyfer Gweithredu Cyfrifo Adnoddau

**5.2** O dan fenter Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau'r Trysorlys, mae'n ofynnol i bob adran llywodraeth ganolog baratoi eu cyfrifon ar groniadau, neu sail 'adnoddau' (yn hytrach nag ar sail ariannol) o flwyddyn ariannol 1999-2000. Caiff y set gyntaf o gyfrifon i'w chynhyrchu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei hun, yn cwmpasu'r cyfnod o 7 Mai 1999 i 31 Mawrth 2000, ei chynhyrchu hefyd ar y sail hon.

**5.3** Fel rhan o amserlen y Trysorlys ar gyfer gweithredu cyfrifo adnoddau, roedd yn ofynnol i'r Swyddfa Gymreig gynt (yn gyffredin â phob adran arall o'r llywodraeth) gynhyrchu cyfrif adnoddau 'ymarfer' yn cwmpasu blwyddyn ariannol 1998-99. Cytunodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i archwilio a ffurfio barn ar y cyfrifon "ymarfer" hyn, er na chyhoeddwyd y cyfrifon eu hunain. Gwnaeth Cadw, sy'n asiantaeth weithredol, baratoi ei chyfrifon 1998-99 yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau.

## Arolwg gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

**5.4** Nid oedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu rhoi barn ddiamod ar gyfrif "ymarfer" 1998-99 y Swyddfa Gymreig gan nad oedd yn cynnwys 'Datganiad o Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion Adrannaol' - sef math newydd o ddatganiad sylfaenol sy'n dadansoddi gwariant yn ôl swyddogaeth. Bwriad y Datganiad yw rhoi gwybod i ddefnyddwyr y cyfrif am sut y rhannwyd yr adnoddau rhwng amcanion yr Adran. Mae'r Trysorlys wedi cyhoeddi Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, sy'n nodi ffurf a chynnwys cyfrifon adnoddau. Mae'r Llawlyfr hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyfrif adnoddau gynnwys datganiad o'r fath. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn mynd i'r afael â methiannau'r system bresennol fel mater o flaenoriaeth o gofio'r angen amlwg i ddechrau'r gwaith paratoadol ar gyfer cyfrifon 1999-2000.

**5.5** Mae'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu cyfuno â chanlyniadau Cadw a'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru. Rhoddais farn ddiamod ar gyfrifon Cadw ac fe'u cyfunwyd yn llwyddiannus â rhai'r adran graidd. Yn eithriadol, cafodd yr awdurdodau iechyd eu heithrio o'r ymarfer cyfuno 1998-99 â chytundeb y Trysorlys. Digwyddodd hyn am fod gwahaniaethau sylweddol wrth baratoi'r cyfrifon hyn a'r polisïau cyfrifo gwahanol a ddefnyddiwyd gan yr awdurdodau iechyd i baratoadau'r Swyddfa Gymreig. Yn benodol, mae'r awdurdodau iechyd yn gweithredu ar sail wahanol ar gyfer codi cyfalaf a dibrisio asedau sefydlog, ac yn cymryd gwargedion/diffygion sy'n deillio o werthu tir ac adeiladau yn uniongyrchol i'w cronfeydd cyfalaf yn hytrach na thrwy eu cyfrifon incwm a gwariant. Mae swyddogion y Cynulliad yn mynd i'r afael â'r problemau hyn.

**5.6** Wrth ganiatáu eithriad o gyfuno cyfrifon awdurdodau iechyd 1998-99, mae'r Trysorlys yn mynnu bod system yn ei lle ar gyfer 2000-01 (blwyddyn lawn gyntaf y cyfrifon i'w cynhyrchu gan y Cynulliad) er mwyn galluogi'r cyfuno hwn. Nododd y Trysorlys hefyd y dylai'r Cynulliad gynhyrchu mantolen gyfunol, lawn ar 31 Mawrth 2000.

**5.7** Yn ogystal â'r ddau brif bwynt hyn, y materion pwysig eraill a gododd o ymchwiliad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gyfrifon adnoddau "ymarfer" 1998-99 oedd:

- Cyflwyno'r cyfrifon i'w harchwilio yn hwyr, sawl wythnos ar ôl y dyddiad y cytunwyd arno ac ar ffurf anghyflawn. Ar gyfer 1999-00, bydd yn hanfodol bod cyfrifon yn gallu cael eu cynhyrchu o fewn amserlen a fydd yn eu galluogi i gael eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifo erbyn y dyddiad cau statudol o 31 Awst bob blwyddyn. Bydd hyn yn golygu bod angen i'r Grŵp Cyllid sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn ymroddedig i'r project hwn ac yn cael eu defnyddio ar y project;

- Y ddibyniaeth mewn rhai meysydd ar system casglu a dadansoddi gwybodaeth gyfrifo â llaw, gan gynnwys yr un sy'n ymwneud â nodi credydwyr grantiau. Mae'r Cynulliad yn bwriadu cyflwyno system gyfrifo gyfrifiadurol newydd ym mis Ebrill 2001 a bydd yn hanfodol bod swyddogion yn sicrhau bod y system hon yn mynd i'r afael yn llawn â gofynion cyfrifo a chofnodi'r Cynulliad, fel y gellir paratoi cyfrifon a chyllidebau adnoddau yn hawdd yn y dyfodol;

- Yr angen i gryfhau gweithdrefnau arolygu rheolwyr er mwyn asesu cywirdeb, cyflawnder a rhesymoldeb gwybodaeth gyfrifo cyn ei chynnwys yn y cyfrif a gyflwynir i'w archwilio.

## Y Cyfrifon Cyntaf a Gyhoeddir

**5.8** Mae swyddogion y Cynulliad ar hyn o bryd yn cynhyrchu cyfrif adnoddau ar gyfer y Swyddfa Gymreig gynt yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 1999. Bydd hwn yn dangos yr asedau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddwyd ar 1 Gorffennaf 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r rheiny a gadwyd gan y Swyddfa Gymreig. Y cyfrif adnoddau hwn fydd yr un cyntaf yn y DG i'w gyhoeddi, a bydd yn ymgorffori fy adroddiad, fel y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol, ar gywirdeb a chyflawnder y balansau a gofnodwyd.

**5.9** Bydd y Cynulliad yn cyflwyno ei gyfrif adnoddau cyntaf, gan gwmpasu'r cyfnod 7 Mai 1999 i 31 Mawrth 2000. Bydd y Datganiad o Adnoddau yn ôl Amcanion o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr y cyfrif hwn a dylai ddarparu cipolwg ar sut y mae'r arian sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru.

### Estyn

**5.10** Bydd Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi (Estyn bellach) yn cynhyrchu set ar wahân o Gyfrifon Adnoddau o 1999-2000. Maent wedi parhau i wneud cynnydd da tuag at gyrraedd y nod hwn ac roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gallu rhoi barn ddiamod ar eu cyfrifon 'ymarfer' 1998-99.

## Datblygiadau yn y Dyfodol

**5.11** Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn parhau i fonitro datblygiadau'n agos a darparu cyngor cyfrifo fel y bo'n briodol i'r Cynulliad, gan dynnu ar ei phrofiadau wrth gyflwyno Cyfrifo Adnoddau rywle arall ledled y Deyrnas Gyfunol.

**5.12** Yn y tymor canolig nod sylfaenol y Trysorlys o hyd yw cyflwyno Cyllidebu Adnoddau, a fydd yn dwyn y prosesau cofnodi a chyllidebu ynghyd. Nodir bwriad y Llywodraeth ym Mesur Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth, sy'n mynd drwy ei gamau Seneddol ar hyn o bryd. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, drwy ei

chynhrychiolydd ar y Bwrdd Ymgynghorol Cofnodi Ariannol, yn parhau i ymwneud yn agos â thrafodion y Trysorlys ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynghori ei chleientiaid.

# RHAN 6: BWRIAD YN Y DYFODOL

## Cyflwyniad

**6.1** Yn y rhan hon o'r adroddiad, edrychaf y tu hwnt i flwyddyn ariannol 1998-99 gan ystyried fy rôl uniongyrchol fel Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn arbennig, rwyf yn:

- Nodi fy mwriad cyffredinol (paragraff 6.2)'
- Amlinellu blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol (paragraff 6.4);
- Rhoi sylwadau ar ganlyniadau'r camau a gymerwyd yng Nghymru i wrthsefyll "Byg y Mileniwm" (paragraff 6.6).

## Oes Newydd

**6.2** Trosglwyddwyd y staff, y swyddogaethau, asedau a rhwymedigaethau'r Swyddfa Gymreig gynt, ynghyd â rheolaeth dros wario grant llywodraeth ganolog Cymru, ar 1 Gorffennaf 1999. Rhoddodd hyn yr awdurdod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bennu blaenoriaethau penodol ar gyfer Cymru. Crëwyd swydd newydd Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac fe'm penodwyd yn ddeiliad cyntaf y swydd ar 1 Mehefin 1999 i archwilio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig, a chynnal ymchwiliadau i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cymhwyso arian y Cynulliad.

**6.3** Mae'r trefniadau newydd ar gyfer gwariant llywodraeth ganolog yng Nghymru yn rhoi cyfle i mi fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chefnogaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, lunio partneriaeth effeithiol â'r Cynulliad Cenedlaethol - â'r Pwyllgor Archwilio yn arbennig - wrth oruchwylio cyfrifon ariannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a hefyd y sylw a roddir i gynnal busnes cyhoeddus, priodoldeb, rheoleidd-dra a gwerth am arian.

## Mynd i'r Afael â Blaenoriaethau'r Cynulliad

**6.4** Yn y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Medi 1999, cytunodd yr Aelodau ar gynlluniau gwario Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000. Mynegodd aelodau eu barn am y blaenoriaethau, gan nodi mai eu prif bryderon oedd materion rheoli corfforaethol, a'r cyfyngiadau a roddwyd ar gynlluniau gwario'r Cynulliad o ganlyniad i weithredu o fewn cyllideb flynyddol benodedig.

**6.5** Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi ystyried pryderon y Pwyllgor wrth baratoi atodlen Astudiaethau Gwerth am Arian ar gyfer 1999-2000 a 2000-2001. Er mai fi sydd yn rhoi'r penderfyniad terfynol ar y rhaglen waith, rwyf wedi gwneud newidiadau i gwmpas ac amseriad y gwaith hwn er mwyn caniatáu i astudiaethau penodol gael eu hymgorffori yn unol â cheisiadau'r Pwyllgor. Er enghraifft, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru rwyf wedi cytuno i fanteisio ar y cyfle cyntaf i ymchwilio i drefniadau adeilad y Cynulliad a chefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru dros ddiwydiant cynhenid a'r Cwmni LG (Electronics).

## Bygythiad y Mileniwm

**6.6** Gwelwyd gallu systemau technoleg gwybodaeth i ymdopi â newid nodiad dyddiad yn union ar ddechrau'r mileniwm newydd fel mater o'r pwys mwyaf gan fusnes a llywodraeth ill dau. Ystyriwyd bod y posibiliadau o amharu ar weithrediadau sefydliadau, hyd yn oed ymhlith systemau syml yn ôl pob tebyg, o ganlyniad i 'Fyg y Mileniwm' hwn yn fawr, ac o bosibl yn gostus. Roedd y pryder yn deillio o'r ffordd y caiff dyddiadau eu storio o fewn systemau: er enghraifft, gall systemau sy'n cofnodi dau rif olaf y flwyddyn yn unig ddehongli 1 Ionawr 2000 fel diwrnod cyntaf y flwyddyn 1900, a allai olygu bod gweithdrediadau sy'n dibynnu ar gronoleg digwyddiadau yn methu.

**6.7** Cyhoeddais adroddiad ym mis Rhagfyr 1999, "Bygythiad y Mileniwm: A Yw Cymru'n Barod?", a gofnododd fy ymchwiliad i ganlyniadau'r gwaith gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithredu 2000 er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i weithredu fel arfer dros gyfnod y Mileniwm. Nodir y pwyntiau allweddol a ganfuwyd gennyf yn Ffigwr 16.

**Ffigwr 16: Canfyddiadau Allweddol o'r Dansoddiad o Gamau Gweithredu yng Nghymru i Ymdrin â Byg y Mileniwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Casgliad Cyffredinol**

- Dim ond risg isel oedd o amhariad perthnasol oherwydd Byg y Mileniwm dros gyfnod y Flwyddyn Newydd.

**Y Seilwaith Cenedlaethol yng Nghymru**

- Ystyriwyd bob pob sector yng Nghymru yn rhai lle nad oedd unrhyw risg adnabyddadwy o amhariad perthnasol (côd glas), yn rownd derfynol yr asesiadau annibynnol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

- Gwnaed cynnydd da o fewn y sefydliadau hyn er mwyn cydymffurfio â'r mileniwm;
- Amcangyfrifwyd mai cost y gwaith hwn oedd £1.3 miliwn.

**6.8** Er ei bod yn bosibl y gall digwyddiadau o amhariad a achoswyd gan Fyg y Mileniwm ddod i'r golwg yn y misoedd i ddodd, mae'n glir bod pob sector o'r seilwaith cenedlaethol yng Nghymru wedi ymdopi'n dda â gwaith cynnal a chadw gwasanaethau dros gyfnod y Flwyddyn Newydd ei hun. Dim ond enghreifftiau bach, prin o amhariad a gofnodwyd hyd yn hyn.

## Ychwanegu Gwerth

**6.9** Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn rhoi cyngor i sefydliadau cleientiaid, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, ar systemau cyfrifo a rheolaeth gyffredinol. Mae'r adroddiadau i reolwyr yn rhoi sicrwydd i Swyddogion Cyfrifo, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella eu systemau o reolaeth ariannol fewnol. Mae rheoleidd-dra a phriodoldeb yn faterion allweddol o fewn y sector cyhoeddus, ac mae gwaith archwilio ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus noddedig mewn perthynas â'r agweddau pwysig hyn.

**6.10** Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, bwriadaf barhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a darbodus i'r Cynulliad ar archwiliadau ariannol a gwerth am arian, gyda'r nod o helpu Cymru i wario'n ddoeth. Lle bo hynny'n briodol, byddaf yn amlygu arbedion ariannol y gall y Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig eu gwneud.

# ATODIAD

## Cyfrifon a gwmpesir gan yr adroddiad hwn

Mae'r Adroddiad hwn yn cwmpasu:

**a) pum Cyfrif Dosbarthu Adrannol y Swyddfa Gymreig gynt;**

**b) y Cyfrif Dosbarthu ar gyfer Swyddfa Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru (a ailenwyd yn Estyn ar 1 Gorffennaf 1999);**

**c) cyfrifon asiantaeth weithredol y Swyddfa Gymreig gynt sef Cadw;**

**ch) pum cyfrif cryno yr NHS yng Nghymru (manylion isod):**

**c) y cyfrifon amrywiol a baratowyd gan y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol yng Nghymru (manylion isod);**

**dd) cyfrifon Cymreig amrywiol eraill (manylion isod).**

### d) Cyfrifon Cryno'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

Archwiliwyd pum cyfrif cryno gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol

- Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru (diddymwyd ar 31 Mawrth 1999);
- Awdurdod Hybu Iechyd Cymru (diddymwyd ar 31 Mawrth 1999);
- Awdurdodau Iechyd, y mae pump ohonynt yng Nghymru;
- Ymddiriedolaethau'r NHS, y gweithredodd 29 yng Nghymru yn ystod 1997-98. Ailgyfluniwyd yr ymddiriedolaethau ar 1 Ebrill 1998 ac unwaith eto ar 1 Ebrill 1999 gan ostwng y nifer i 26 ar gyfer y flwyddyn ariannol 1998-99, ac 16 ar gyfer y flwyddyn 1999-2000;
- Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth, gan y sefydliadau uchod.

Mae'r awdurdodau a'r ymddiriedolaethau unigol yng Nghymru yn amodol ar archwiliad annibynnol gan y Comisiwn Archwilio. Mae crynhoi'r datganiadau hyn yn dilyn cwblhau'r archwiliadau hyn, ac felly mae'r raddfa asmser ar gyfer y broses hon o reidrwydd yn arwain at gylch archwilio diweddarach. Mae'r Adroddiad hwn felly yn cyfeirio at gyfrifon ac adroddiad cryno 1997-98, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1999.

### e) Cyrff Cyhoeddus Anadrannol

Mae'r Cyrff Cyhoeddus Anadrannol yn paratoi cyfrifon croniadau yn ôl eu cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mewn achosion penodol, paratôdd y sefydliadau hyn ddatganiadau ariannol ychwanegol, a archwiliwyd hefyd gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Cynulliad wedi sefydlu Pwyllgorau Pwnc ac mae gan bob un faes eang o ddiddordeb. Cyn belled ag y bo'n bosibl, caiff y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol eu categoreiddio isod yn ôl y Pwyllgor mwyaf priodol. Ym 1998-99, roedd pymtheg o Gyrff Cyhoeddus Anadrannol yn cynhyrchu dwy set ar bymtheg o gyfrifon . Mae hyn yn cynnwys pedair elusen a chronfa bensiwn, fel y nodir isod. O 1 Gorffennaf 1999, daeth y cyrff hyn yn Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, heblaw am Awdurdod Tir Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, a ddiddymwyd yn dilyn trosglwyddu eu heiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau i Awdurdod Datblygu Cymru ar 1 Hydref 1998:

## Pwyllgorau a Threfn Pynciau

### Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru

### Datblygu Economaidd

- Bwrdd Croeso Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Bwrdd Datblygu Cymru Wledig (cyfrif cau)
- Awdurdod Tir Cymru (cyfrif cau)

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- Bwrdd Cenedlaethol Cymru ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymweliadau Iechyd

### Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd

- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

### Addysg a Hyfforddiant Cyn ac Ar Ôl Un ar Bymtheg Oed, Chwaraeon, Diwylliant ac Etifeddiaeth

- Cyngor Celfyddydau Cymru (Elusen)
- Cyngor Cyllido Addysg Bellach
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Elusen)
- Cyfrif Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Cronfa Bensiwn)
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru (Elusen)
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru (Elusen)
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg

## f) Cyfrifon Eraill y Swyddfa Gymreig

Roedd gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldeb hefyd dros y cyfrifon canlynol ym 1998-99, a baratowyd gan y Swyddfa Gymreig gynt;

- Y Gronfa Benthyciadau Genedlaethol. Pan gyfunodd Awdurdod Datblygu Cymru ag Awdurdod Tir Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, ymgymerwyd â'r benthyciadau a roddwyd i'r cyrff hyn gan Awdurdod Datblygu Cymru a bellach maent yn ffurfio un cyfrif.

- Cyfrif Papur Gwyn Trethu Annomestig Cenedlaethol

- Cyfrif Papur Gwyn Cryno Cynghorau Hyfforddiant a Menter

- Cyfrif Treuliau Refferendwm Datganoli Cymru

## Cyfrifon Eraill

Mae'r Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am y cyfrifon ychwanegol canlynol. Yn dilyn datganoli, ei gyfrifoldeb fydd archwilio'r datganiadau hyn o hyd, ond caiff y cyfrifon a archwiliwyd eu copïo i'r Cynulliad:

- **Cyfrifon Dosbarthu'r Loteri.** Dosbarthwyr y Loteri yng Nghymru yw Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r ddau yn paratoi adroddiad cyfrif. Cyflawnir y gweithgareddau hyn o dan awdurdod dirprwyedig yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon;

- **Mae Cronfa Arweiniad a Sicrwydd Amaethyddol Ewrop** yn talu cymorthdaliadau i ffermwyr Cymru drwy'r Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Paratoir y cyfrifon hyn ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd ar ffurf a bennir ganddynt hwy.